

Sesiwn Gwrandawriad 1

PARATOAD, GWELEDIGAETH, AMCANION A STRATEGAETH OFODOL Y CYNLLUN

9.30 yb, Dydd Mawrth 6 Medi 2016

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
Gwynedd a Môn**



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

Cynhyrchwyd y Datganiad hwn gan Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i nodi eu hymateb i'r materion a'r pynciau a godwyd gan yr Arolygydd ar gyfer y Gwrandawriad am yr Economi – Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

Mae'r Datganiad hwn yn ymwneud ag elfennau o'r Cynllun a godwyd gan yr Arolygydd fel materion i'w trafod. Lle bo'n briodol mae'r Datganiad yn edrych ar ac yn croesgyfeirio at y prif ffynonellau o wybodaeth a ddefnyddiwyd i baratoi'r Cynllun megis canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus, yr Asesiad Cynaliadwyedd, y dogfennau cefndir a Phapurau Testun ategol. Rhoddir rhifau cyfeirnod y dogfennau lle y bo'n briodol.

At ddibenion eglurder o fewn y datganiad hwn mae unrhyw Newidiadau Materion sy'n Codi i'r Cynllun Adnau a/neu Newid â Ffocws i'r Cynllun, wedi'i ddangos mewn print trwm **Coch** ac wedi'i thanlinellu. Dangosir unrhyw Newid â Ffocws i'r Cynllun Adnau mewn print **Trwm** wedi'i danlinellu.

Agenda Materion a Phynciau

1 Cyflwyniad

2 Materion Gweithdrefnol

3 A yw'r Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion gweithdrefnol angenrheidiol?

- 3.1 **Ymateb** – Mae'r Cynghorau'n fodlon fod Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (2011 – 2026) wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion gweithdrefnol angenrheidiol fel y'u cyflwynir yn Adrannau 62 a 63 Deddf Pryniant Gorfodol 2004, yn ogystal ag â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015.
- 3.2 Mae'r Cynghorau hefyd wedi cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol statudol eraill sy'n gysylltiedig â pharatoi Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) , fel y'u cyflwynir yn yr adroddiadau unigol (CDLL.007 – CDLL.008) a'u hatodiadau (DA.0021 – DA.019)

3a A yw'r Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau?

- 3.3 **Ymateb** – Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni (CC), yn cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC), yn wreiddiol gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd ym Medi a Hydref 2011. Cytunodd Llywodraeth Cymru iddo yn Nhachwedd 2011. Ers hynny, mae amserlen paratoi'r Cynllun wedi'i diwygio yn 2013, 2014 ac yn derfynol yn 2016. Mae'r diwygiadau i'r amserlen wedi'u hymgorffori mewn Cytundebau Cyflawni diwygiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno iddynt. Mae'r Cytundeb Cyflawni terfynol yn cofnodi'r diwygiadau sydd wedi'u cynnwys yn amrywiol fersiynau'r Cytundeb Cyflawni (CDLL.021 & CDLL.022)
- 3.4 Mae manylion llawn y camau a gymerwyd a'r dulliau ymgysylltu ac ymgynghori a ddefnyddiwyd wedi'u cyflwyno yn yr Adroddiad Ymgynghorol (Mawrth 2016) (CDLL.020), sy'n cynnwys Hunanasesiadau'r Profion Cadernid a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod Adneuo a'r Cyfnod Cyflwyno (Atodiad 1 y CDLL.020)).
- 3.5 Er y gwnaed pob ymdrech i gydymffurfio'n llwyr â chynnwys ac amcanion yr CCC, bu'n rhaid gwro rhyw fymryn oddi wrtho. Yn benodol:
- Panel Dinasyddion – yn wreiddiol, bwriad y Cyngor oedd ymgysylltu â'r Panel fel ffordd o edrych i mewn i farn croestoriad o boblogaeth Môn a Gwynedd. Gallai'r Panelau fod yn 'glust' ddefnyddiol i wrando. Fodd bynnag, nid oedd modd cymryd mantais o Banel Dinasyddion Cyngor Gwynedd gan nad yw'r protocol corfforaethol ar gyfer ymgynghori â'r grŵp yn caniatáu iddo wneud hynny. Ni chafodd Panel Dinasyddion Môn ei sefydlu mewn amser. Caiff y gwyrriad hwn oddi wrth y Cynllun Cynnwys Cymunedau ei gofnodi yn yr Adroddiad Ymgynghorol (CDLL.020)
- 3.6 Mae'n anochel mai aelodau o'r cyhoedd yw aelodau o'r Panel Dinasyddion - pobl a fyddai wedi cael gwybod am broses paratoi'r Cynllun trwy Rybuddion Cyhoeddus. Ystyria'r Cynghorau fod Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Môn a Gwynedd (y Cynllun)

wedi'i baratoi mewn modd nad yw'n rhagfarnu yn erbyn cyfle unrhyw berson i fod yn rhan o waith paratoi'r Cynllun.

3b. A yw'r Cynllun wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol, ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd/Asesiad Priodol cadarn?

Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol

- 3.7 **Ymateb** – Ydyw. Yn unol â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015 a Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, mae'r Cynllun wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS). Rhoes yr AC/ AAS ystyriaeth hefyd i effeithiau ar iechyd, cydraddoldeb a'r Gymraeg fel rhan o arfarniad cynhwysfawr cydlynol. Cafodd yr AC/ AAS eu llywio gan Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Cyfeiria'r term Arfarniad Cynaliadwyedd yng ngweddill y datganiad hwn at yr arfarniad ar y cyd ac, felly, dylid cymryd ei fod yn cynnwys yr AAS.
- 3.8 Mae'r gwaith ar yr AC wedi'i gynnal yn fewnol gan Enfusion Ltd., a gyflogwyd i gynyddu capasiti Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn ac er mwyn sicrhau ansawdd y gwaith a wnaed (y broses a'r cynnwys). Rhoes yr ymgynghoriaeth hefyd gyngor ar gamau allweddol gan gynnwys arweiniad ar sut i sicrhau fod y Cynghorau'n cydymffurfio â Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.
- 3.9 Mae manylion llawn camau'r AC gan gynnwys y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a'r canlyniadau wedi'u cyflwyno yn yr Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd (Mawrth 2016) (CDLL.007) ac Atodiad Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd (Gorffennaf 2016) (DA.021). Crynhoir y gwaith isod:
- Cam 1: Adroddiad Sgopio'r AC - Sefydlodd Dogfen Sgopio'r AC (<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Appraisals-and-Assessments/Scoping-Report.pdf>) waelodlin cynaliadwyedd Bwrdeistref y Sir. Yn ddo roedd adolygiad o gynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill a allai gael dylanwad ar yr AC a'r CDLI ar y Cyd. Bu iddi hefyd gyflwyno Amcanion yr AC ac amlinellu'r fethodoleg arfaethedig ar gyfer yr AC. Yn sgil yr ymgynghoriad, gwnaed diwygiadau a chawsant eu hymgorffori yn yr AC a chyhoeddwyd Adroddiad Sgopio AC diwygiedig fel atodiad i Adroddiad Interim yr AC ym Mai 2013. (<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Appraisals-and-Assessments/SA-and-SEA.pdf>)
 - Cam 2: Adroddiad Interim yr AC (Hoff Strategaeth) - Cyhoeddwyd Cam 2: Adroddiad Interim yr AC i ymgynghori yn ei gylch fel rhan o'r pecyn o ddogfennau ochr yn ochr â'r Hoff Strategaeth ym Mai 2013. Yn Adroddiad Interim yr AC roedd asesiadau manwl o'r Hoff Strategaeth, gan gynnwys yr opsiynau ar gyfer lefel y twf, gweledigaeth, amcanion a pholisïau strategol y Cynllun.
 - Cam 3: AC y CDLI ar y Cyd – y Cynllun Adnau - Cam 3: AC Adroddiad y Cynllun Adnau (CDLL.007) – Cyhoeddwyd Adroddiad yr AC i ymgynghori yn ei gylch fel rhan o becyn o ddogfennau ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau yn Chwefror 2015. Yn Adroddiad yr AC roedd asesiadau manwl o Strategaeth y Cynllun, gweledigaeth, amcanion y Cynllun, dyraniadau datblygu, yr ystod o bolisïau

cyffredinol, strategol a manwl sy'n seiliedig ar destunau ac ynddo hefyd mae crynodeb o argymhellion a mesurau lliniaru.

- Cam 4: AC o Newidiadau â Ffocws i'r CDLI ar y Cyd - y Cynllun Adnau - cafodd hwn ei gynnwys ym Mhennod 6 Adroddiad yr AC y cyfeirir ato yng Ngham 3 uchod. Yn sgil ymchwiliad cychwynnol gan yr Arolygydd (DA.002) cynhyrchwyd Atodiad i'r Adroddiad yng Ngorffennaf 2016 (DA.021), sy'n cynnwys eglurhad o'r asesiad a'r diwygiadau golygyddol i Bennod 6.
- Cam 5: AC o Newidiadau sy'n dod i'r amlwg yn y Materion sy'n Codi, yn cynnwys diwygiadau ychwanegol i destun neu bolisiau yn y Cynllun ac ychwanegiadau i roi sylw i'r angen am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a chyfleoedd ar gyfer ffermydd solar. Cyflwynir hyn yn yr Atodiad y cyfeirir ato yng Ngham 4 uchod.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd/Asesiad Priodol

- 3.10 Mae'r Cynghorau hefyd yn cadarnhau y cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar y CDLI ar y Cyd, yn unol â gofynion Erthyglau 6(3) a 6(4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Cynhaliwyd y gwaith gan Enfusion Ltd., a gyflogwyd i gynyddu capasiti Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn. Mae modd gweld y canlyniadau yn y ddogfen a ganlyn a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (CDLL.008). Mae'r Asesiad wedi dod i'r casgliad nad yw'r Cynllun, sy'n cynnwys Newidiadau â Ffocws, yn debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd. Roedd y canfyddiadau hyn yn rhan o sylwadau ymgynghoriad a chyngor Adnoddau Naturiol Cymru a rhanddeiliaid ehangach. Cofnodir y canfyddiadau mewn perthynas â'r newidiadau a nodwyd yn ystod y Broses Archwilio (DA.019) mewn Atodiad i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

3c. A lywiwyd y Cynllun gan ystyriaeth gadarn o'r dewisiadau amgen rhesymol?

- 3.11 **Ymateb** - Do. Er mwyn llywio'r Hoff Strategaeth, cyhoeddodd y Cynghorau Bapur "Datblygu'r weledigaeth, yr amcanion allweddol a'r opsiynau strategol" (CDLL.001) yn Nhachwedd 2011 fel sail i ymgysylltu â'r cyhoedd ac ystod o randdeiliaid a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni. Llywiwyd cynnwys y llyfryn gan ddadansoddiad mewnol, cychwynnol o dystiolaeth. Ceisiodd y cyfnod ymgysylltu farn, a mesur dewisiadau pobl yng nghyswllt gweledigaeth ac amcanion y Cynllun ac ystod o opsiynau twf a gofodol. Dyma opsiynau'r strategaeth y rhoddwyd ystyriaeth iddynt:

Opsiynau Twf

Opsiwn T1 - 'Rhaniad isranbarthol'
Opsiwn T2 - 'Twf Tuedd Poblogaeth'
Opsiwn T3 - Tuedd Codi Tai - Cyfnod 10 mlynedd
Opsiwn T4 - 'Twf Sylfaen Economaidd yn unig '
Dim Twf

Opsiynau Gofodol

Opsiwn D1 - Canolbwyntio ar Fangor a'r Prif Aneddleoedd Allweddol
Opsiwn D2 - Canolbwyntio ar Fangor, y Prif Aneddleoedd Allweddol a'r Prif Ardaloedd Ffocws a'r Rhai Eilaidd a'u dalgylchoedd
Opsiwn D3 - Dosbarthiad cymesur i ardaloedd Trefol a Gwledig
Opsiwn D3a - Canolbwyntio ar ardaloedd gwledig
Opsiwn D4 - Canolbwyntio ar ddatblygiadau defnydd cymysg mawr

- 3.12 Mae manylion yr Opsiynau wedi'u cynnwys ym Mhapur Testun 4 (PT.008). Mae manylion llawn yr Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau wedi'u cynnwys yn Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd (Mawrth 2016) (CDLL.007). Cofnoda'r Adroddiad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ganlyniadau asesiad o'r Opsiynau o ran llesiant y Gymraeg (CDLL.011). Mae canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu wedi'u hamlinellu yn yr Adroddiad Ymgynghorol - Adran 5 ac Atodiad 8 (CDLL.020). Cafodd y canlyniadau eu bwydo'n uniongyrchol i waith paratoi'r Hoff Strategaeth ar gyfer ardal y Cynllun (CDLL.003) ac wedi hynny, i'r Cynllun Adnau (CDLL.004)
- 3.13 Yn sgil ymgynghori ynghylch yr Hoff Strategaeth a rhyddhau canlyniadau Cyfrifiad 2011, ailedrychwyd ar yr Opsiynau Twf a chawsant eu mireinio/gloywi er mwyn sicrhau fod y Cynllun Adnau yn seiliedig ar strategaeth gydlynol yr oedd modd ei chyflawni. Bydd strategaeth o'r fath yn hwyluso datblygiadau newydd fydd yn rhoi sylw i weledigaeth ac amcanion y Cynllun. Cofnoda Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd (Mawrth 2016) (CDLL.007) asesiad o'r Strategaeth sydd wedi'i mireinio/gloywi.
- 3.14 Yn ogystal, fel rhan o'r cyfnod cynnar o gasglu tystiolaeth, rhoes y Cyngor wahoddiad i'r cyhoedd ac i gyrff eraill â diddordeb gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol er mwyn rhoi syniad o'r safleoedd sydd ar gael i'w datblygu neu, fel arall, syniad o safleoedd yr ystyrir bod modd gwarantu eu gwarchod rhag datblygu arnynt. Mae manylion y Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd yn y cyfnod casglu tystiolaeth hwn wedi'u cynnwys yng Nghofrestr y Safleoedd Ymgeisiol (CDLL.002). Mae canlyniadau asesiad o'r Safleoedd Ymgeisiol wedi'u cynnwys ym Mhapur Testun 1A ac 1B (PT.002 & PT.003).

4 A yw Gweledigaeth y Cynllun yn ddigon uchelgeisiol a phenodol i leoliad i ffurfio'r sail ar gyfer cynllunio hyd at 2026?

- 4.1 **Ymateb** - Ydyw. Ystyrir bod gweledigaeth y Cynllun, fel y'i diwygiwyd gan Newid â Ffocws NF5, yn uchelgeisiol ac yn benodol i leoliad. Ystyrir ei bod yn cyfleu'r math o le y mae ardal y Cynllun yn ceisio'i fod. Mae hi, a'r amcanion, yn rhoi cyd-destun cyffredinol i'r Cynllun ac yn dangos sut mae modd cydbwysu ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i hwyluso datblygiadau cynaliadwy.
- 4.2 Mae'n rhoi ystyriaeth lwyr i'r strategaeth ac i faterion sy'n amlwg yn lleol ac sy'n berthnasol i ardal y Cynllun. Cafodd ei datblygu a'i siapiaio trwy wahanol ffynonellau, yn cynnwys y Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol, ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, casglu tystiolaeth (yn cynnwys sgopio AC/AAS). Rhoddwyd ystyriaeth lwyr hefyd i gynnwys y Cynlluniau Integredig Sengl sydd yn eu lle adeg paratoi'r Cynllun, yn ogystal ag i Raglen Ynys Ynni Môn. Rhoddir trosolwg ar yr ystyriaeth yn y Papur "Datblygu'r weledigaeth, yr amcanion allweddol a'r opsiynau strategol" (CDLL.001) ac mae trosolwg ar y sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghylch cyfeiriad y gweithredu i'w weld yn yr Adroddiad Ymgynghori (CDLL.020).

5 A yw amcanion y Cynllun yn CAMPUS ac yn gallu darparu'r Weledigaeth a nodir?

- 5.1 **Ymateb** - Ydynt. Mae amcanion y Cynllun yn cyflwyno mewn mwy o fanylion sut mae modd rhoi sylw i'r system gynllunio. Maent yn ymateb i elfennau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Weledigaeth ac wedi llywio datblygiad polisiau

strategol a manwl yn y Cynllun. Yn sgil y sylwadau yng nghyfnod yr Hoff Strategaeth, mireiniwyd yr amcanion a'u rhoi dan bum thema yr ystyrir sy'n crynhoi prif elfennau'r Weledigaeth. Ystyrir bod yr amcanion yn CAMPUS oherwydd:

- Eu bod yn ymwneud â materion penodol sy'n berthnasol i ardal y Cynllun, ac yn cyflwyno sut y dylai'r Cynllun roi sylw iddynt;
- Mae pob thema'n cynnwys allbwn i gynorthwyo wrth fesur cyflawniad yr allbwn. At hyn, mae polisïau'r Cynllun yn llifo o'r amcanion ac mae'r fframwaith monitro yn y Cynllun, a nodir ym Mhennod 8, yn cynnwys dangosyddion a tharged i fesur cyflawniad;
- Ystyrir bod yr amcanion yn gyraeddadwy yn ystod cyfnod y cynllun trwy weithredu polisïau a chynigion. Bydd y fframwaith monitro uchod yn cofnodi a yw'r amcanion yn cael eu cyrraedd;
- Ystyrir bod yr amcanion yn realistig;
- Mae'r fframwaith monitro'n cynnwys targedau a throthwyon sy'n ymwneud ag amser.

6 A yw'r strategaeth ofodol yn gyson/cydnaws â:

6a. Chynllun Gofodol Cymru?

- 6.1 **Ymateb** - Ydyw. Mae strategaeth ofodol y Cynllun yn gyson/cydnaws â diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru (CGC). Er mwyn cyrraedd y cysondeb/cydnawsedd hwn defnyddiwyd y CGC i roi rhyw gymaint o'r cyd-destun gofodol i'r opsiynau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt yn ystod y cyfnod cyn yr Hoff Strategaeth yn ogystal â datblygiad Hierarchaeth Aneddleoedd y Cynllun. Caiff hyn ei gofnodi yn "Datblygu'r weledigaeth, yr amcanion allweddol a'r opsiynau strategol" (Tachwedd 2011) (CDLL.001) ac ym Mhapur Testun 5A Datblygu'r Hierarchaeth Aneddleoedd (Pennod 3) (PT.011), sydd hefyd yn cofnodi canlyniadau arfarniad cynaliadwyedd yr holl aneddleoedd.
- 6.2 O ran y sylw a roddir i'r CGC, rhennir ardal y Cynllun rhwng dwy ardal cynllun gofodol, sef: Gogledd-orllewin Cymru Eryri a Môn a Chanolbarth Cymru, ac ym mhob un ohonynt mae amrywiaethau o ran dulliau gweithredu wrth ddiffinio'u hierarchaeth. Mae'r Cynllun wedi sicrhau fod lefelau uwch ei hierarchaeth aneddleoedd yn agos i rai'r CGC. Yn seiliedig ar gynaliadwyedd a dadansoddiad o wasanaethau a chyfleusterau, mae mwy o Ganolfannau'n cael eu cynnwys yn yr aneddleoedd lefel is na'r CGC (gweler y Tabl isod). Nid yw'r un o'r aneddleoedd lefel uwch nac is a nodwyd yn y CGC wedi'u heithrio o Hierarchaeth Aneddleoedd y Cynllun. Ystyria'r Cynghorau fod y fethodoleg gadarn sydd y tu ôl i'r Hierarchaeth Aneddleoedd yn cyfiawnhau'r mân wyriadau. Er gwaethaf yr ychwanegiadau, mae'r Cyngor o'r farn fod y Cynllun yn gyson a chydawns â'r CGC a'i themâu.

Tabl 1: Cymhariaeth rhwng Cynllun Gofodol Cymru a'r Cynllun Adnau

Categori yng Nghynllun Gofodol Cymru	Categori yn Hierarchaeth Aneddleoedd y Cynllun Adnau
Anheddiad Allweddol o Arwyddocâd Cenedlaethol: Bangor	Canolfan isranbarthol: Bangor
Prif Anheddiad Allweddol: Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli, Llangefni, Caergybi	Canolfannau Gwasanaethu Trefol: Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli, Llangefni,

	Caergybi, Amlwch, Blaenau Ffestiniog
Anheddiad Trawsffiniol: Penrhyndeudraeth, Blaenau Ffestiniog	Mae'r aneddleoedd hyn wedi'u cynnwys yn y Ganolfan Wasanaethu Leol a'r Ganolfan Wasanaethu Drefol
Anheddiad Allweddol: Bethesda, Llanberis, Nefyn, Tywyn, Abermaw, Biwmares, Amlwch	Canolfannau Gwasanaethu Lleol: Llanberis, Nefyn, Tywyn, Abermaw, Biwmares, Abersoch, Cricieth, Llanrug, Benllech, Bodedern, Cemaes, Gaerwen, Llanfairpwll, Porthaethwy, Penraeth, Rhosneigr, Y Fali.

6b. cynlluniau a strategaethau rhanbarthol?

- 6.3 **Ymateb** - Ydyw. Wrth baratoi'r Cynllun, mae'r Cynghorau wedi ystyried ystod o gynlluniau, polisiau ac arweiniad rhanbarthol. Rhydd Pennod 3 y Cynllun grynodedd o ddogfennau unigol a throsolwg ar yr ystyriaethau ar gyfer y Cynllun sy'n dod i'r amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys yr hen gynlluniau cludiant rhanbarthol (a adwaenir bellach fel y Cynlluniau cludiant lleol ar y cyd); Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd-orllewin Cymru. Ymhlith y rhai eraill y cyfeirir atynt mae'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (Mwynau).

6c. cynlluniau/strategaethau awdurdodau cyfagos?

- 6.4 **Ymateb** - Ydyw. Cynllun datblygu lleol ar y cyd yw hwn ac, felly, mae'n gydweithrediad agos rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rhan o Wynedd o ran tir ond, mae'r ardal honno'n cael ei chynnwys gan ei Chynllun Datblygu Lleol. Mae Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd am y ffin â phedair ardal awdurdod cynllunio lleol arall: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'r Cynghorau wedi cael cysylltiad rheolaidd ag awdurdodau cyfagos, yn unigol (yn enwedig felly Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) ac yn dorfol ar lefel rhanbarthol (trwy Grŵp Swyddogion Polisi Cynllunio Gogledd Cymru).
- 6.5 Lle bo'n berthnasol, mae'r Cynghorau wedi ymgysylltu ag awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau cydnawsedd a / neu barhad trawsffiniol. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi cynnwys astudiaethau ar y cyd, megis yr Astudiaeth o Gapasiti Ynni Adnewyddadwy, Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd. Mae rhai aneddleoedd wedi'u rhannu rhwng y CDLI ar y Cyd a CDLI Eryri e.e. Nantlle, Llanberis. Yn sgil trafodaethau yng nghyfnod cyn-adneuol Eryri, sicrhawyd dull gweithredu cyson cyn belled ag yr oedd yn rhesymol bosib, ac ailadroddir hyn yn y CDLI ar y Cyd. O'r herwydd, ystyrir bod trafodaethau adeiladol rhwng Cynghorau / Awdurdodau a rhannu gwybodaeth a phrofiad wedi lleihau i'r eithaf y perygl o bolisiau'n gwrthdaro a sicrhau lefel briodol o integreiddio.
- 6.6 Yn ogystal â'r uchod, ymgynghorwyd yn rheolaidd ag awdurdodau lleol cyfagos ym mhob cam o gyfnod paratoi'r Cynllun, a rhoes hyn gyfle ffurfiol i wneud sylw ar y Cynllun oedd yn dod i'r amlwg a dylanwadu ar ei ddatblygiad.

6ch. A yw'r Cynllun yn adlewyrchu strategaethau a chynigion darparwyr seilwaith?

- 6.7 Ydyw. Roedd gwaith paratoi'r cynllun yn cynnwys nodi darpariaeth seilwaith presennol ac arfaethedig yn ardal y Cynllun. Mae gwybodaeth wedi'i chael gan Wasanaethau'r Cynghorau, darparwyr seilwaith a chan rhanddeiliaid eraill. Crynhoir y wybodaeth hon yn y Seilwaith Cymunedol - gwybodaeth sylfaenol (2015) (PT.024).
- 6.8 At hyn, mae'r Cynghorau wedi ymgysylltu'n benodol â Dŵr Cymru a ddywedodd y cynhelir eu Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf trwy Raglen Rheoli Asedau dreigl. Mae'r Rhaglen Rheoli Asedau'n ceisio ariannu gwaith seilwaith cyfleustodau graddfa fawr (dŵr/ carthffosiaeth/ gwaith trin dŵr gwastraff). Ar hyn o bryd, mae Dŵr Cymru'n gweithredu Cynllun Rheoli Asedau 6, sy'n rhedeg o 1/4/2015 i 31/3/2020.
- 6.9 Wrth ystyried gofynion eu Rhaglenni Rheoli Asedau, mae angen wrth ryw gymaint o sicrwydd ar Ddŵr Cymru o ran ardaloedd twf a chynigion i ddatblygu safleoedd. Mae gwybodaeth a gynhwysir mewn cynlluniau datblygu o gymorth i arwain lle mae gofyn am fuddsoddi, yn amodol ar fforddiadwyedd a chymeradwyaeth reoleiddiol. O'r herwydd, mae Cynllun a fabwysiadwyd, felly, yn rhoi rhyw gymaint o sicrwydd y bydd dynodiadau'n debygol o gael eu cyflawni gan na fydd y Rheolydd Diwydiant Ofwat yn rhoi arian ar gyfer twf nad yw wedi'i gadarnhau. Eglura Datganiad Tir Cyffredin rhwng Dŵr Cymru a'r Cynghorau, sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Dichonoldeb Cyflawbi Safleoedd (DA.015) fod y gwahanol gyfnodau amser sy'n cael eu cynnwys gan y Cynlluniau Rheoli Asedau a'r Cynllun yn golygu bod angen ystyried cyflawni rhai safleoedd neu ystyried pa bryd y bydd modd cyflawni'r holl unedau ar safleoedd penodol, ac y bydd unrhyw faterion capasiti'n rhan o gyflwyniad yn y dyfodol am arian dan Gynllun Rheoli Asedau 7. Er gwaethaf hynny, nid yw Dŵr Cymru a'r cynghorau'n ystyried y golyga hyn y bydd y datblygiad o reidrwydd yn cael ei atal. Gall dulliau amgen gyfrannu at gyflawni'r safleoedd hyn.
- 6.10 Mae'r ddau Gyngor ar wahanol gyfnodau o ran adolygu eu darpariaeth addysgol er mwyn sicrhau fod ysgolion yn gallu cyflawni gwasanaeth addysgol o'r safon uchaf. Y newidiadau a gynhelir neu a gynigir hyd yn hyn yw adeiladu ysgolion newydd, uno a chau rhai ysgolion a rhai ffyrdd gwahanol o weithio. Cafwyd eisoes gynnydd sylweddol ac edrychir i mewn i ragor o newidiadau. Gan fod Cynghorau'n parhau i fod angen gwneud penderfyniadau ynghylch newidiadau, mae'r Cynllun yn cynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf (Polisi ISA 2) er mwyn arwain unrhyw ddarpariaeth newydd o gyfleusterau cymunedol newydd, sy'n cynnwys ysgolion, at yr aneddeledd mwyaf cynaliadwy oni bai fod tystiolaeth yn cyfiawnhau lleoliad amgen. At hyn, mae'r Cynllun yn ceisio cysoni datblygiadau newydd gyda'r lefel bresennol ac arfaethedig o seilwaith, gan gynnwys cyfleusterau addysgol. Mae'n bosib y gallai rhai datblygiadau preswyl geisio camau lliniaru, lle mae datblygiad yn rhoi straen ar Ysgol i wneud lle i alw ychwanegol. Mae'r Cynghorau'n annog ymgysylltu'n gynnar er mwyn cytuno ar yr angen am gyfraniadau adeg y cais cynllunio a maint a natur y cyfraniad hwnnw. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ar y dull gweithredu.
- 6.11 O'r herwydd, mae'r Cynghorau o'r farn fod y Cynllun wedi rhoi ystyriaeth i strategaethau a chynigion y darparwyr seilwaith.

7 A yw'r dull o ddewis safleoedd yn ddigon clir a thryloyw ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn?

- 7.1 **Ymateb** - Ydyw. Mae'r safleoedd a ddewiswyd / neilltuwyd yn y Cynllun Adnau, fel y'i diwygiwyd gan y Newidiadau â Ffocws, wedi bod yn destun asesiadau cadarn a

chynhwysfawr. Wrth baratoi'r Cynllun, mae'r Cynghorau wedi ystyried nifer sylweddol o safleoedd h.y. safleoedd a gyflwynwyd fel Safleoedd Ymgeisiol, safleoedd a neilltuwyd mewn cynlluniau presennol sydd heb eu datblygu hyd yn hyn a safleoedd a awgrymwyd mewn trafodaethau rhwng gwasanaethau. Er nad cynhyrchu gwybodaeth dechnegol fanwl yn ôl safle oedd bwriad yr asesiad, rhoes y broses drosolwg cynhwysfawr ar bosibilrwydd datblygu safleoedd yn seiliedig ar y wybodaeth orau oedd ar gael adeg paratoi'r Cynllun.

- 7.2 Cyflwynir ym Mhapur Testun 1 a Phapur Testun 1A (PT.001 and PT002) Adroddiad yr Asesiad o'r Safleoedd Ymgeisiol, y safleoedd tai a ddewiswyd a'r cyfiawnhad am y penderfyniadau a wnaed rhwng y safleoedd cystadleuol. Gyda'r asesiad bu modd i'r Cynghorau bennu pa safleoedd sy'n gallu cael eu datblygu a chyfrannu at gyflawni'r Strategaeth h.y. pa mor addas oeddynt a beth oedd y posibilrwydd o'u cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun. Roedd y broses asesu yn cynnwys ymgynghori'n helaeth ag adrannau mewnol y Cynghorau a chyrrff statudol yr ymgynghorwyd â nhw er mwyn nodi unrwyd gyfyngiadau ar safleoedd. Ceir trosolwg o'r wybodaeth yn erbyn pob safle ym Mhapur Testun 1A ac 1B (PT.002 a PT.003).
- 7.3 Er mwyn cynorthwyo'r Cynghorau i ddeall gofynion tir cyflogaeth ar draws ardal y Cynllun, a chael dealltwriaeth bellach o angen posib, comisiynodd y Cyngor Astudiaeth o Dir Cyflogaeth (DC.004). Roedd yr Astudiaeth yn ymwneud ag adolygiad cynhwysfawr o safleoedd ac eiddo cyflogaeth cyfredol gyda'r canlyniadau'n sail ar gyfer ystyried gofynion cyflenwi tir cyflogaeth yn y dyfodol ac yn allweddol wrth lywio polisiau strategol a manwl yn y Cynllun.
- 7.4 Nodir ym Mhapurau Testun 18, 18A ac 18B (PT.030, PT.031 & DA.022) broses dewis safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a'r cyfiawnhad am y penderfyniadau a wnaed rhwng y safleoedd amgen sydd, lle maent yn briodol, yn rhoi cysylltiadau ag adroddiadau Pwyllgor perthnasol sy'n cofnodi canlyniadau ymgynghoriadau cyhoeddus ynghylch opsiynau a ystyriwyd.
- 7.5 Yn ystod AC/AAS o'r Cynllun rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ba mor addas oedd safleoedd ac fe'i cofnodir yn Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd (CDLL.007) ac yn Atodiad Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd (DA.021)
- 7.6 O'r herwydd, ystyria'r Cynghorau fod y broses o ddewis safleoedd, fel y'i crynhoir uchod, yn beirianwaith rhesymegol a chadarn ar gyfer nodi safleoedd datblygu addas a bod y broses yn ddigon clir a thryloyw ac wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn.

8 A yw'r Strategaeth Ofodol, gan gynnwys yr Hierarchaeth Aneddleoedd, yn cynrychioli strategaeth briodol ar gyfer cyflawni twf dros gyfnod y Cynllun?

8a. A yw Strategaeth Ofodol y Cynllun yn cynrychioli agwedd gynaliadwy tuag at gynllunio, gan gynnwys yn nhermau trafndiaeth, dros gyfnod y Cynllun? A fyddai Strategaeth y Cynllun yn cyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion a nodir?

- 8.1 **Ymateb** - Ydyw. Cred y Cynghorau fod nodi hierarchaeth aneddleoedd cynaliadwy'n sicrhau y caiff datblygiadau eu dosbarthu'n gynaliadwy. Nid oes cyfarwyddyd cynllunio cenedlaethol penodol ar sut y dylid diffinio hierarchaeth aneddleoedd ond, mae Polisi Cynllunio Cymru, ym mharagraff 9.2.5, yn rhoi rhyw faterion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt, h.y. mae'n awgrymu y dylai'r hierarchaeth sefydlu patrwm gofodol o ddatblygu tai gan gydbwysu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Trwy nodi hierarchaeth y Cynllun adlewyrchwyd a hyrwyddwyd

cynaliadwyedd trwy geisio gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol ac, o ganlyniad i hyn, ostwng yr angen i deithio. Mae'n ceisio cynyddu cynhwysiad cymdeithasol gan gyflawni aneddeoedd hyfyw a hunangynhaliol a chymunedau cynaliadwy. Cofnoda Papur Testun 5A Datblygu'r Hierarchaeth Aneddeoedd (PT.012) gymwysterau cynaliadwyedd aneddeoedd unigol, eu maint, eu poblogaeth, eu lleoliad, pa wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael yn ogystal â pha mor hawdd oedd cael mynediad atynt. Wrth wneud hyn, defnyddiwyd methodoleg oedd â nod o gael fframwaith cytbwys o aneddeoedd sy'n adlewyrchu lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau ac ati oedd ar gael.

- 8.2 Cyfeirir y rhan helaethaf o'r twf mewn tai (55%) at y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaethu Trefol gydag 20% yn cael ei gyfeirio at y Canolfannau Gwasanaethu Lleol, yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol. Fodd bynnag, ystyria'r Cyngor fod yr elfen gymdeithasol o gynaliadwyedd - cefnogi cymunedau lleol cydlynol a phrysur, darparu tai i gwrdd ag anghenion a nodwyd a chynnal gwasanaethau lleol y mae modd cael atynt - yn rhan hanfodol a bod ganddo ryw arwyddocâd penodol i gymunedau gwledig yn ardal y Cynllun gan y dylai awdurdod, sy'n wledig gan fwyaf, ei wneud yn bosib cyfeirio cyfran fechan o dwf cyffredinol mewn tai at yr aneddeoedd llai, gwledig i gefnogi amcanion cynaliadwyedd cymdeithasol. O'r herwydd, mae'n cyfeirio lefel reoledig o dwf at amrywiol Bentrefi a Chlystyrau er mwyn cydnabod eu rôl mewn rhwydwaith o gymunedau cynaliadwy. Mae'r Hierarchaeth Aneddeoedd yn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy lle mae datblygiadau newydd yn agos i wasanaethau a chyfleusterau sydd â chysylltiadau cludiant cyhoeddus da. Trwy leoli tai, swyddi a gwasanaethau yn agos at ei gilydd bydd yr angen i deithio'n gostwng a chymunedau sydd eisoes yna'n cael eu cefnogi. Mae'r Hierarchaeth Aneddeoedd yn hyrwyddo dosbarthiad datblygiadau mewn modd hygyrch a chynaliadwy sy'n adlewyrchu nodweddion gofodol gwrthgyferbyniol ardal y Cynllun.
- 8.3 Ystyrir bod yr Hierarchaeth Aneddeoedd yn ganolog i gyflawni gweledigaeth y Cynllun sydd, yn ei hanfod, yn cryfhau cymunedau sydd eisoes yno ac yn cyflawni amcanion y Cynllun sydd wedi'u cyflwyno dan bum thema: cefnogi a chreu cymunedau diogel, iach, gwahanol a phrysur, byw'n gynaliadwy; cefnogi twf ac adfywiad fydd yn trosglwyddo'r economi leol; rhoi i bawb fynediad at gartref sy'n briodol i'w hanghenion a gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.
- 8.4 Mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer cymysgedd addas o dai (marchnad agored a lleol a thai fforddiadwy) wedi'u dosbarthu mewn modd sy'n gyson â strategaeth y Cynllun. Mae'n cefnogi iechyd a llesiant trwy ei fframwaith aneddeoedd cynaliadwy a'r ddarpariaeth a wnaed i gadw ac ymestyn cyfleusterau cymunedol. Mae'n hyrwyddo hygyrchedd gyda'r posibilrwydd o ostwng tloedi ac eithrio cymdeithasol. Wrth hwyluso buddsoddi, mae'r Cynllun yn nodi ystod a dewis o safleoedd cyflogaeth ar draws yr Hierarchaeth gan ganolbwyntio'n bennaf ar y Canolfannau. Wrth gyfeirio'r cyfryw fioamrywiaeth twf, mae materion amgylcheddol a chyfyngiadau gwasanaethau wedi bod yn ystyriaethau, fel y mae hygyrchedd a thrafnidiaeth. Cydnabyddir y dreftadaeth gymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol gyda darpariaeth yn cael ei gwneud trwy lefel gytbwys o dwf mewn lleoliadau priodol a pholisïau sy'n caniatáu iddynt gael eu hystyried.
- 8.5 Cyflwynir ym Mharagraff 6.10 y Cynllun y strategaeth ofodol ar gyfer datblygu ar draws Ardal y Cynllun. Ym Mholisi PS13 cyflwynir cwantwm y gwaith datblygu yr ystyria'r Cyngor sydd ei angen i gwrdd ag anghenion tai a chyflogaeth (twf a ragwelir), tra bo Polisi PS 15, a gefnogir gan Bolisiau TAI 14 - TAI 18, yn cyflwyno lle

dylid cyfeirio'r twf hwn (hierarchaeth aneddleoedd) a graddfa datblygiad a ddsberthir i aneddleoedd unigol (dosbarthiad twf).

8b. Sut mae'r Strategaeth Ofodol wedi'i lywio gan ganfyddiadau'r asesiadau o'r farchnad dai leol?

8.6 **Ymateb** - Bu i'r ddau Gyngor ddiweddar eu Hasesiadau o'r Farchnad Dai Leol (yr AFDL) yn 2013 (DC.025 - AFDL Ynys Môn a DC.026 - Gwynedd), gan ddisodli adroddiad gwaelodlin yr AFDL a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2008. Cynhaliwyd AFDL Môn yn unol ag "Arweiniad i Asesu'r Farchnad Leol, Mawrth 2006" Llywodraeth Cymru. Defnyddiodd Cyngor Gwynedd hefyd arweiniad 2006 ac arweiniad hwyrach a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012 "Dechrau ar eich Arweiniad i'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol") er mwyn rhoi trosolwg ar faterion tai yng Ngwynedd.

8.7 Nododd AFDL Môn (DC.025) ac AFDL Gwynedd (DC.026) lefel sylweddol o angen fforddiadwy yn ardal y Cynllun: 635 ym Môn a 709 yng Ngwynedd. Wrth gwrs, rhydd hyn gipolwg ar yr amser hwnnw, sy'n ffactor a gydnabyddir ym mharagraff 1.14 yr Arweiniad i Asesu'r Farchnad Leol (Mawrth 2006) (Llywodraeth Cynulliad Cymru): "Derbynnir mai, yn eu hanfod, yr hyn yw asesiadau tai yw cipolwg ar y sefyllfa ar adeg benodol ...".

8.8 Nododd AFDL Môn bod angen, ar gyfartaledd, 635 o unedau tai fforddiadwy'r flwyddyn ym Môn.

8.9 Nododd AFDL Môn bod angen 709 o unedau tai yn flynyddol rhwng 2013 a 2018. Mae'r astudiaeth yn defnyddio Ardaloedd y Farchnad Dai a nodir yn hen AFDL Gogledd-orllewin Cymru ac y cyfeirir atynt ym mharagraff 8.6 uchod er mwyn dosbarthu'r angen yn seiliedig ar ffigyrau poblogaeth 2012:

AFDL 03 - Menai (Gwynedd)	171
AFDL 04 - Caernarfon	187
AFDL 05 - Penrhyn Llŷn	98
AFDL 06 - Porthmadog	122
AFDL 07 - Arfordir De Gwynedd	66
AFDL 08 - Machynlleth	15
AFDL 09 - y Bala	49

8.10 Rhydd Papur Testun 17A y Farchnad Dai Leol hefyd gipolwg i ni ar faterion fforddiadwyedd yn ardal y Cynllun. Edrycha'r tabl dan baragraff 10.9 ar ganran yr aelwydydd sydd ag incwm is na 1/3.5 x pris tŷ'r chwarterl isaf. Yn 81 allan o'r 100 ward yn ardal y Cynllun mae dros 50% o'u haelwydydd wedi'u prisio allan o'r farchnad h.y. mae incwm yr aelwyd yn is na 1/3.5 x pris tŷ'r chwarterl isaf yn yr un ward. Dylid cydnabod mai dyma fyddai'r sefyllfa petai pethau'n mynd i'r pen ac nad yw'n ystyried unrhyw gynilion neu asedau eraill y byddo gan aelwydydd i'w cynorthwyo i brynu eiddo. O'r herwydd, ni ddylid ei ddefnyddio i bennu'r angen cyffredinol. Mae, fodd bynnag, yn dangos lefel uchel yr amrywiaeth rhwng incwm a phrisiau tai ar draws ardal y Cynllun a'r angen am dai fforddiadwy.

8.11 Nodyn Eglurhaol - Mae Hwyluso Tai Fforddiadwy (Gorffennaf 2016) (DA.014b) yn tynnu sylw at Restri Aros Tai a Chofrestr Tai Teg fel ffordd o gasglu gwybodaeth gyfoes am angen.

- 8.12 Awgryma'r dystiolaeth bod angen tai fforddiadwy ar draws ardal y Cynllun. Mae Strategaeth Ofodol y Cynllun yn dosbarthu twf mewn tai'n gymesur ar draws ardal y Cynllun er mwyn cwrdd â'r anghenion a nodwyd a chefnogi cynaliadwyedd cymdeithasol aneddeleodd a nodwyd yn y Strategaeth Aneddeleodd. Llifa polisiau tai'r Cynllun o'r Strategaeth, yn hwyluso 100% o dai fforddiadwy ar safleoedd eithrio (a all fod yn safleoedd addas ger unrhyw ffin ddatblygu) ac mewn Clystyrau.

8c. A ellir cyfiawnhau lefel y twf o fewn y Mân Aneddeleodd Gwledig ac a oes sail gadarn ar gyfer y rhesymeg dros beidio â chynnwys ffiniau Aneddeleodd yn achos Aneddeleodd o'r fath?

- 8.13 **Ymateb** - Mae'r Cynllun yn nodi Hierarchaeth Aneddeleodd er mwyn cael dull gweithredu cytbwys wrth reoli twf, cyfarwyddo datblygiad i rwydwaith o Aneddeleodd sy'n adlewyrchu'r rhinweddau yn y cymunedau a'u gallu i gymryd twf. Mae'r Cynghorau wedi asesu rolau a swyddogaethau Aneddeleodd, gan gofio fod yr ardal yn un wledig gan fwyaf ac sydd wedi'i nodweddu gan ystod o wahanol fathau o aneddeleodd. Mae dosbarthiad aneddeleodd yn seiliedig ar yr hierarchaeth chwe haen a ganlyn:
- Canolfan Isranbarthol
 - Canolfannau Gwasanaethu Trefol
 - Canolfannau Gwasanaethu Lleol
 - Pentrefi Gwasanaethu
 - Pentrefi Lleol/Arfordirol/Gwledig
 - Clystyrau
- 8.14 Cofnoda Papur Testun 5A Datblygu'r Strategaeth Aneddeleodd (PT.012) y fethodoleg a'r asesiad a gynhelir i nodi hierarchaeth a dosbarthiad Aneddeleodd unigol.
- 8.15 Wrth i'r gofyn posib am dir ddod i'r wyneb, nododd ac asesodd y Cynghorau ystod o opsiynau strategaethau fel y cyflwynir mewn ymateb i gwestiwn 3c uchod, ac ym Mhapur Testun 4 (PT.008) ac yn Arfarniad Cynaliadwyedd y Cynllun (CDLL.007). Ystyrir bod y strategaeth fabwysiedig yn dod â manteision i'r ardaloedd trefol yn ogystal ag i'r ardaloedd mwy gwledig yn ardal y Cynllun.
- 8.16 Cyfeirir y rhan fwyaf o dwf (75%) i'r Canolfannau Isranbarthol, Gwasanaethu Trefol a Chanolfannau Gwasanaethu Lleol sydd yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol. Ystyrir y Cynghorau bod yn rhaid wrth ryw gymaint o dwf parhaus mewn aneddeleodd y tu allan i'r Canolfannau Gwasanaethu er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau lleol, prysur a'r Gymraeg. Fel y cyfeirir mewn ymateb i gwestiwn 3a, mae'r Strategaeth hefyd yn ystyried elfen gymdeithasol cynaliadwyedd ac yn rhoi pwys priodol iddi. Am y rheswm hwn, cyfeirir 25% o'r twf mewn tai at Bentrefi Gwasanaethu, Pentrefi eraill ac at Glystyrau.
- 8.17 Haen uchaf y rhan hon o'r Hierarchaeth Aneddeleodd yw'r Pentrefi Gwasanaeth. Ystyrir eu bod yn rhoi digon o fynediad at wasanaethau a chyfleusterau o fewn eu ffiniau ar gyfer lefel gymesur o dwf i gynnal cymunedau gwledig trwy gwrdd ag angen lleol am dai ar safleoedd a neilltuwyd neu sy'n annisgwyl a rhoi cyfleoedd i ddatblygiadau eraill e.e. cyflogaeth leol. O safbwynt economaidd, mae busnesau gwledig yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi ardal y Cynllun. Ar y sail hon, ystyrir y Cynghorau y dylai'r strategaeth ofodol a'r hierarchaeth aneddeleodd gefnogi ffyniant yr economi gwledig trwy roi cyfle cyflogaeth priodol yn yr aneddeleodd

gwledig, yn enwedig felly yn y Pentrefi Gwasanaeth. Fel y disgrifir uchod, cofnoda Papur Testun 5A Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd (PT.012) arfarniad cynaliadwyedd yr Aneddleoedd unigol. Neilltua'r Cynllun dir ar gyfer tai. Cyfeirir 22% o lefel y twf a gyfeirir at Bentrefi a Chlystyrau at nifer 11 y Pentrefi Gwasanaethu.

- 8.18 Yna mae'r Hierarchaeth Aneddleoedd yn rhaeadru i lawr i gynnwys Aneddleoedd llai a ddisgrifir un ai fel Pentrefi Gwledig/Lleol/ Arfordirol. Disgrifia Papur Testun 5A Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd (PT.012) y gwahaniaeth bychan rhwng yr Aneddleoedd hyn. Fel y disgrifir uchod, nod y Cynllun yw cynnal neu greu cymunedau cynaliadwy a chynnal hyfywedd y Gymraeg. O'r herwydd, ceisia'r Cynllun hwyluso'r gwaith o godi tai sy'n ei gwneud yn bosib i gymunedau sydd eisoes yno gwrdd â rhai o'u hanghenion eu hunain. Mae nifer y datblygiadau'n gyfyngedig ac yn gyson â chyfleusterau'r Aneddleoedd a pha mor hygyrch ydynt. Nid oes dyraniadau tai wedi'u cynnwys yn yr Aneddleoedd hyn. Golyga hyd y ffiniau datblygu hyn fod cyfleoedd ar gyfer datblygiadau o fath stadau mawr yn naturiol gyfyngedig. Cyfyngir cyfleoedd codi tai i safleoedd mewnlenwi a safleoedd sy'n cwblhau datblygiadau sydd eisoes yno. Mae'r 76 o Bentrefi Gwledig/Lleol/Arfordirol yn cyfrif am 53.5 % o lefel y twf a gyfeirir at y Pentrefi a'r Clystyrau, sy'n cyfateb i 13.4% o lefel gyffredinol twf. Cynhelir y Cynllun gan fframwaith monitro i ddilyn trywydd y cyflawni o ran lefel a math o unedau tai.
- 8.19 Yn ôl Polisi Cynllunio Cymru (paragraff 9.3.2), 'Gallai mynd ati'n sensitif i fewnlenwi bylchau bach rhwng grwpiau bach o dai, neu wneud mân estyniadau i grwpiau o'r fath fod yn dderbyniol, yn enwedig ar gyfer tai fforddiadwy i fodloni anghenion lleol. Serch hynny, bydd llawer yn dibynnu ar gymeriad yr hyn sydd o gwmpas a nifer y cyfryw grwpiau yn yr ardal'.
- 8.20 Ar y sail hon, mae'r Cynllun yn nodi 'Clystyrau'. Lleoliadau sydd eisoes yna yw Clystyrau ac sydd eisoes â nodweddion 'anheddiad' cymharol sylweddol, yn enwedig felly mewn perthynas â thai. O'r herwydd, mae'r gwaith o nodi Clystyrau, felly, wedi'i seilio ar bresenoldeb ffurf adeiledig ar ddechrau cyfnod y Cynllun h.y. roedd ganddynt o leiaf 10 uned oedd union wrth ymyl ei gilydd mewn un grŵp neu, ar brydiau, mewn dau neu dri grŵp. Maent yn amrywio'n sylweddol mewn maint. Mae rhai yn gasgliadau cyfan o ddeng neu ychydig mwy o unedau preswyl yn unig lle mae eraill wedi'u ffurfio gan grwpiau mawr cyfan o unedau preswyl. Mae ganddynt i gyd swyddogaeth ar ryw lefel fel cmuned ac hefo mynediad rhesymol ar ffurf drafndiaeth cyhoeddus i anheddiadau sydd uwch i fyny yn y rhestr.
- 8.21 Yn ôl Polisi TAI 18 bydd datblygiadau preswyl newydd yn cael eu cyfyngu i ddim mwy na dwy uned y Clwstwr yn ystod cyfnod y Cynllun. Gall ffiniau datblygu roi mwy o sicrwydd ar leoliadau sy'n debygol o fod yn dderbyniol ar gyfer tai. Mae ffiniau datblygu hefyd yn dderbyniol i nodi cyfleoedd ar gyfer tai fforddiadwy 'eithriad gwledig'. Fodd bynnag, gall ffiniau datblygu awgrymu fod yr holl dir o fewn ffiniau'n addas i'w ddatblygu, rhywbeth nad yw, o bosib, bob tro'n gywir. Ar y sail mai ychydig iawn o ddatblygiadau sy'n cael eu cyfeirio at bob Clwstwr, cynhwysir Polisi TAI 18, sy'n bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf, yn y Cynllun. Mae'r meini prawf yn adlewyrchu'r ystyriaethau cynllunio o bwys y byddai'n rhaid i'r Cynghorau eu hystyried, gan gynnwys diogelu'r cefn gwlad a chymeriad yr anheddiad. Er gwaethaf hynny, er mwyn cydymffurfio ag arweiniad a pholisïau cynllunio cenedlaethol, rhoi elfen o sicrwydd a rheoli'n briodol gynigion datblygu newydd, dangosir maint y Clystyrau a restrir ym Mholisi TAI 18 trwy liwio adeiladau ar y Map Cynigion. Bydd hyn yn hwyluso cyfleoedd datblygu newydd ar nifer gyfyngedig o ddarnau o dir mewnlenwi bychain a rhai sy'n cwblhau safleoedd ac sydd ger adeiladau sydd eisoes yno. Cafodd y dull gweithredu hwn ei gynnwys yng Nghynllun Datblygu Unedol

Gwynedd ac ym Mholisi Cynllunio Dros Dro mabwysiedig Cyngor Sir Ynys Môn - Clystyrau Gwledig.

- 8.22 Bydd nifer a math yr unedau preswyl yn y Clystyrau'n cael eu rheoli'n gaeth er mwyn darparu tai fforddiadwy ag angen lleol yn unig. Yn unol â Pholisi PS 15 a Pholisi TAI 18 cyfeirir mymryn llai na 3% o dwf cyffredinol mewn tai y Cynllun i'r Clystyrau. O'r herwydd, ystyria'r Cynghorau fod digon o fanylion ym Mholisi TAI 18 i reoli cynigion datblygu mewn Clystyrau a bod y dull gweithredu hwn yn gyson â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol.
- 8.23 Ystyrir bod graddfa a math y datblygiad a gyfeirir at Aneddeledd unigol yn gymesur â rôl a swyddogaeth aneddeledd. Mae'n cynorthwyo i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion cyffredinol a gyflwynir yn y Cynllun. Dylid nodi bod y broses gwneud cynllun wedi bod yn gyson trwy'r cwbl o ran cydnabod rôl a swyddogaeth Aneddeledd. Ystyria'r Cynghorau fod y dull gweithredu'n gadarn, cymesur, priodol ac yn gyflawnadwy o fewn cyd-destun cymdeithasol ac economaidd yr ardal.

8ch. A yw'r Strategaeth Ofodol yn gwneud cysylltiad effeithiol rhwng cyflogaeth a thwf preswyl?

- 8.24 **Ymateb** - Ydyw. Mae'r Strategaeth Ofodol yn cyfeirio mwyafrif y twf at y Canolfannau ac i raddau llai at y Pentrefi Gwasanaethu, yr ystyrir eu bod yr aneddeledd mwy cynaliadwy. Mae'r Canolfannau a'r Pentrefi Gwasanaethu'n hygyrch i Bentrefi a Chlystyrau eraill y cyfeirir mwy o ddatblygiadau cyfyngedig atynt. Yn y Canolfannau a Phentrefi Gwasanaethu y mae'r rhan fwyaf o safleoedd cyflogaeth cyfredol a safleoedd sydd wedi'u neilltuo a gwasanaethau a chyfleusterau allweddol eraill. Mae'r tabl isod yn dangos graddfa twf mewn tai a chyflogaeth y darperir ar eu cyfer yn y Cynllun:

Categori	Unedau Tai (targed cyflenwad dangosol) Polisi TAI 14 – TAI 18	Tir Cyflogaeth (ha) Polisi CYF 1 (cyfanswm tir a ddynodir a warchodir)
Canolfannau Gwasanaethu ac Isranbarthol	4,399	404.6
Canolfannau Gwasanaethu Lleol	1,580	137.1
Pentrefi Gwasanaethu	440	4.5
Pentrefi Gwledig/Arfordirol/Lleol	1,062	6.6
Clystyrau	224	-
Cefn Gwlad	250	25.4

- 8.25 O'r herwydd, ystyria'r Cynghorau fod y Strategaeth Ofodol yn cysylltu cyflogaeth a thwf preswyl yn effeithiol.

8d. A yw'r Strategaeth yn gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac yn mabwysiadu'r dull dilyniannol tuag at ryddhau tir fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru?

- 8.26 **Ymateb** – Ydyw. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, ystyria'r Cynghorau fod y Cynllun yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddatblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol, lle bo'n bosib, yn hytrach na safleoedd tir gwyrdd. Rhoes y Cynghorau ystyriaeth i baragraffau 9.2.8 a 9.2.9 Polisi Cynllunio Cymru, a arweiniodd iddynt roi blaenoriaeth i nodi safleoedd addas a datblygadwy i'w neilltuo mewn Canolfannau a Phentrefi Gwasanaethu. Fodd bynnag, dylid nodi gan mai ardal wledig yn bennaf yw hon wedi'i nodweddu gan nifer fawr o Aneddleoedd cymharol fychain, mae'r safleoedd tir llwyd sydd ar gael yn gyfyngedig ac yn annigonol i roi sylw i'r gofyn am gartrefi newydd yn ardal y Cynllun. Cynhaliodd y Cynghorau Astudiaeth Capasiti Trefol (PT.006) o'r gwahanol ganolfannau a nodir yn yr Hierarchaeth Aneddleoedd. Rhoes hon asesiad cynhwysfawr a realistig o gyfleoedd tir llwyd posib (safleoedd ac ardaloedd) yn y Canolfannau, sydd un ai ar gael ar hyn o bryd neu a ddaw, o bosib, ar gael yn ystod cyfnod y Cynllun hyd at 2026. Fel hyn, roedd modd cyfrifo faint o dir ychwanegol y roedd yn debygol y byddid gofyn amdano. Arweiniodd maint y bwlc rhwng y gofyn am anheddau newydd llai'r cyflenwad o unedau tai newydd rhwng 2011 - 2013 a'r nifer a nodir sy'n gyraeddadwy yn yr Astudiaeth Capasiti Trefol at nodi safleoedd a neilltuwyd.
- 8.27 Mae'r dull hwn o weithredu'n sicrhau y gwnaed y mwyaf o gyfleoedd i ddatblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol ac sy'n unol â Strategaeth Ofodol a Hierarchaeth Aneddleoedd'r Cynllun.

8dd. A yw Strategaeth Ofodol a fframwaith polisi'r Cynllun yn gyson â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â Risg Llifogydd?

- 8.28 **Ymateb** - Ydynt. Ystyria'r Cynghorau fod y dull gweithredu strategol o ran risg o lifogydd, sy'n creu'r dystiolaeth i gefnogi'r Cynllun, yn unol â Pholisi Cynllunio Cenedlaethol (PCC) a Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 15: Datblygu a Risg o Lifogydd, a hynny am y rhesymau a nodir isod. Cododd Cyfoeth Naturiol Cymru gwestiynau ar addasrwydd neilltuo tai ym Mangor a safleoedd cyflogaeth sydd wedi'u diogelu ym Mhenrhyndeudraeth, Porthmadog a Phwllheli. Mae gwrthwynebwyr unigol wedi herio dull gweithredu'r Cynllun i gyfyngu datblygiadau preswyl newydd ym Mhorthmadog, sy'n seiliedig ar ddiffyg tir addas ar gyfer tai, a thir na fyddir yn wynebu risg o lifogydd. Mae'r Cynghorau wedi cynnal gwaith ychwanegol mewn perthynas â neilltuo tai (fel y disgrifir isod) ac o blaid datrys y materion mewn perthynas â safleoedd cyflogaeth ar lefel y Rheolwyr Datblygu a thrwy newid a awgrymwyd i'r Materion ym Codi (fel y disgrifir isod).
- 8.29 Tynna cyfarwyddyd cenedlaethol, sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru, sylw at yr angen i leihau'r risg o lifogydd trwy osgoi datblygu mewn ardaloedd lle mae'r risg o lifogydd yn uchel ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried y dalgylch yn ei gyfanrwydd a gweithredu'n strategol gyda risgiau o lifogydd. At hyn, ceisia NCT 15: Datblygu a Risg o Lifogydd arwain penderfyniadau cynllunio fel y caiff datblygiadau newydd eu cyfeirio i ffwrdd o ardaloedd yr ystyrir bod yno risg uchel o lifogydd. Lle bo rhaid ystyried datblygu mewn ardal lle mae'r risg o lifogydd yn uchel, mae NCT 15 yn amlinellu profion cyfiawnhau er mwyn arwain penderfyniadau ynghylch a all datblygiad penodol fwrw yn ei flaen ai peidio. Yn ôl NCT 15, bydd datblygu ymhellach yn y cyfryw ardaloedd yn parhau i fod ag elfen o risg er y byddant, o bosib, yn elwa o ryw fath o warchodaeth, a gallai hyn, mewn rhai

achosion, waethygu canlyniadau pe ceid llifogydd ar ddatblygiad sydd eisoes yno ac, felly, rhaid gweithredu'n gytbwys.

- 8.30 Er mwyn sicrhau y gweithredir yn seiliedig ar y risgiau hyn yng nghyswllt datblygiad polisïau a chynigion y Cynllun, cynhaliodd y Cynghorau Asesiad Strategol mewnol o Ganlyniadau Llifogydd Lefel 1 ar gyfer ardal y Cynllun (ASGLI). Ymgynghorwyd â Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yr ASGLI Lefel 1. Mae'r ASGLI yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun (PT.015 - PT.017). Mae'r ASGLI yn cwmpasu asesiad lefel eang ac nid yw'n gwneud i ffwrdd â'r gofyn am fwy o asesiadau mwy manwl o safleoedd penodol a fydd yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun. Nod cyffredinol yr ASGLI oedd darparu digon o ddata a gwybodaeth fel bod modd i'r Cynghorau ddefnyddio dull dilyniannol i neilltuo safleoedd, hyrwyddo Map Cyngor Datblygu (DAM) Llywodraeth Cymru Parthau A a B cyn Parth C yn unol ag NCT15. Rhoes yr ASGLI ystyriaeth i ddylanwadau'r llanw ac afonydd ar risg o lifogydd yn ardal y Cynllun.
- 8.31 Defnyddiwyd asesiad lefel eang a gwybodaeth oedd eisoes ar gael ar gyfer yr astudiaeth. Mae'r dull hwn o weithredu'n unol â chyfarwyddyd gweithredol 303.09 corff gwaddol Asiantaeth Amgylcheddol Cymru, "*Rheoli'r Risg o Lifogydd: Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd i Gymru*", sy'n mabwysiadu dull gweithredu tri cham. Cam 1 yr ASGLI yw'r trosolwg cyffredinol ar y risg o lifogydd mewn perthynas â'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Yr hyn yw Cam 2 yw asesiad o'r risgiau i safleoedd ymgeisiol ac mae Cam 3 yn ymwneud ag asesiadau manylach o'r safleoedd ymgeisiol hynny nad ydynt yn cydymffurfio ag NCT15 yng Ngham 2.
- 8.32 Yn ychwanegol at hyn, datblygwyd methodoleg yr asesiad o'r safle a gyflwynir ym Mhapur Testun 1 (PT.001) er mwyn asesu safleoedd arfaethedig yn erbyn strategaeth y Cynllun ac ystod o feini prawf cynllunio, amgylcheddol a ffisegol. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (paragraff 9.2.9) roedd y meini prawf yn cynnwys dull gweithredu rhagofalus i nodi safleoedd a cheisiai osgoi safleoedd datblygu posib mewn ardaloedd lle'r oedd y risg o lifogydd yno'n uchel.
- 8.33 O'r herwydd, mabwysiadodd y Cynghorau ddull gweithredu rhagofalus i nodi safleoedd. Yng nghyfnod Adnau'r Cynllun, wrth bwysu a mesur yr angen i ystyried risg o lifogydd a'r angen i ddiogelu ystod a dewis o dir ar gyfer cyflogaeth a thai i gwrdd ag angen a dystiwyd, nododd y Cynllun dir mewn ardaloedd lle'r oedd risg o lifogydd. Y rhain yw: safleoedd a ddiogelwyd ar gyfer cyflogaeth y mae caniatâd cynllunio eisoes wedi'i roi ar eu cyfer h.y. Adwy'r Hafan, Pwllheli (C6); Parc Busnes, Porthmadog (C8); Stad Ddiwydiannol Griffin, Penrhyndeudraeth (C39), a dyraniad tai ym Mangor (T4).
- 8.34 Wrth barhau i ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru, datgelwyd fod tir gwag yn Stad Ddiwydiannol Griffin, Penrhyndeudraeth (C39) yn rhan o ardal storio dŵr llifogydd a grëwyd pan ddatblygwyd y tir yn yr 1980au. Yn wyneb y wybodaeth hon, os cred yr arolygwr ei fod yn dderbyniol a phriodol, byddai'r Cynghorau, felly, yn dymuno cynnig diwygiad i Fap Mewnosodedig Penrhyndeudraeth i eithrio'r safle o'r safleoedd cyflogaeth a ddiogelir a'r ffin ddatblygu a rhoi sylw iddo fel Newid posib i'r Materion sy'n Codi. Mae'r diwygiad i'w weld yn Atodiad 1 y datganiad hwn. Byddai'n rhaid cael newid dilyniannol i Bolisi CYF 1 ar gyfer y newid hwn i'r materion sy'n codi, a byddai hyn yn rhoi rhestr o safleoedd cyflogaeth. Mae'r Cynghorau'n deall fod Cyfoeth Naturiol Cymru'n fodlon gyda gwneud i ffwrdd â'r tir storio dŵr llifogydd o ddyraniad C39 ac, felly, wneud i ffwrdd â'u gwrthwynebiad i'r safle cyflogaeth hwn a ddiogelir. Tynna Cyfoeth Naturiol Cymru sylw'r arolygwr at y ffaith bod angen i unrhyw fwriad datblygu yn y dyfodol yn y safle cyflogaeth hwn a ddiogelir gynnal mynediad i gerbydau cynnal a chadw at yr ardal storio dŵr llifogydd.


- 8.35 Cynhaliwyd ASGLI cam 2 (DC.022) ar gyfer Porthmadog mewn ymateb i wrthwynebiadau ynghylch y diffyg dyraniadau tai yn y Ganolfan Wasanaethu Drefol hon a'r targed tai dangosol ar gyfer Penrhyndeudraeth, Canolfan Wasanaethu Leol gerllaw. Dangosodd hyn nad oedd safleoedd addas ar gyfer neilltuo tai ym Mhorthmadog. O ran y Parc Busnes ym Mhorthmadog (C8), awgryma'r gwaith modelu diweddar a gynhaliwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n cynnal yr ASGLI uchod fod y Parc Busnes y tu allan i'r ardal o risg o lifogydd. Mae'r Cynghorau wedi comisiynu ASGLI cam 2 ychwanegol er mwyn pwysleisio'r mater. Mae casgliadau'r adroddiad yr ASGLI cam 2 i'w weld yn Atodiad 2 i'r datganiad yma. Gallir gweld yr adroddiad llawn mewn atodiad i'r datganiad am safleoedd unigol. Bydd y Cynghorau yn parhau i drafod y mater gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i weld os ydyw'n fodlon gydag ymagwedd y Cynghorau i'r mater.
- 8.36 O ran safle Adwy'r Hafan ym Mhwillheli (C6), cadarnha'r Cynghorau fod y rhan fwyaf o'r safle eisoes wedi'i ddatblygu. Rhoddwyd caniatâd cynllunio'n ddiweddar i godi gwesty ar dir gwag a adwaenir fel Cae Ceffyl. Yma ceir dolen i'r adroddiad pwyllgor sy'n trafod y materion ynghylch y risg o lifogydd:-
- <https://diogel.cyngor.gwynedd.gov.uk/swiftlg/imagetemp/44971-302984.pdf>
- 8.37 Mae'r Cynghorau'n cadarnhau y byddai gofyn i'r holl fwriadau cynllunio manwl i ailddatblygu tir neu i newid defnydd adeiladau ar y safleoedd cyflogaeth uchod gydymffurfio â pholisïau rheoli datblygiadau yn y Cynllun yn ogystal ag â CCW ac NCT15.
- 8.38 Yn sgil ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Cynllun Adnau, a arweiniodd at wrthwynebiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch neilltuo tai ar hen safle Crosville (T4), cynhaliwyd ASGLI cam 2 (DC.023) ynghylch addasrwydd y dyraniad tai hwn. Mewn ymateb i'r astudiaeth hon, mae Newidiadau â Ffocws NF77 ac NF112 yn gwneud i ffwrdd â'r safle o'r Cynllun.
- 8.39 Ystyria'r Cynghorau fod y bwriadau yn y Cynllun (yn amodol ar Newid â Ffocws NF77 ac NF112, a'r Newid arfaethedig i'r Materion a Godir ym mharagraff 8.34 uchod) wedi'u hasesu'n llawn yn erbyn gofynion y cyfarwyddyd cynllunio cenedlaethol sydd yn CCC ac NCT15 ac, yn wyneb hyn, mae'r bwriadau a gynhwysir yn y Cynllun yn cydymffurfio â'r polisi cynllunio cenedlaethol sy'n ymwneud â datblygu a risg o lifogydd.
- 8.40 Yn ogystal â'r gwaith sy'n ymwneud â dyraniadau yn y Cynllun, fel y'u cyflwynir uchod, yn y Cynllun hefyd mae polisïau (Polisi PS5 a PS6 a Pholisi ARNA 1) sy'n ymwneud â risg o lifogydd ac sydd â'r nod o osgoi risg o lifogydd diangen trwy sicrhau fod bwriadau datblygu mewn ardaloedd sy'n debygol o gael llifogydd yn cael eu hasesu'n llym o ran risg o lifogydd ac y cânt eu hatal lle byddant yn cynyddu'n annerbyniol risgiau o lifogydd, gan unwaith eto sicrhau fod y Cynllun yn cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol sy'n ymwneud â datblygu a risg o lifogydd.
- 8g. A yw Strategaeth Ofodol y Cynllun yn llwyddo o ran trosi polisi cenedlaethol mewn perthynas â'r tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg i'r lefel leol?**
- 8.41 **Ymateb** - Ydyw. Mae'r Cynghorau wedi ceisio lleihau i'r eithaf gollir tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg. Mae proses nodi tir ar gyfer unedau tai newydd i roi sylw i ofynion tai'r Cynllun wedi dilyn dull dilyniannol: nodi tai newydd a godwyd er 2011; safleoedd gyda chaniatâd cynllunio arnynt yn barod ac y byddai eu cyflawni'n

cydymffurfio â strategaeth y Cynllun; safleoedd addas a datblygadwy mewn aneddleoedd sydd eisoes yno, gan gynnwys safleoedd tir llwyd ac adeiladau sydd eisoes yno; cyn ceisio safleoedd ychwanegol a fyddai'n ymestyn ffurf adeiledig aneddleoedd sydd eisoes yno.

- 8.42 Datblygwyd y fethodoleg o asesu safleoedd a gyflwynir ym Mhapur Testun 1 (PT.001) er mwyn asesu safleoedd arfaethedig yn erbyn strategaeth y Cynllun ac ystod o feini prawf cynllunio, amgylcheddol a ffisegol. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (paragraff 4.10.1) roedd y meini prawf yn cynnwys tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg - gweler Atodiad 3 Papur Testun 1. Seiliwyd Dosbarthiad Tir Amaethyddol cychwynol safleoedd ar wybodaeth a gyhoeddwyd ac a ryddhawyd gan Adran Amaeth a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru. Caiff canlyniadau'r asesiadau o'r safleoedd eu cynnwys ym Mhapur Testun 1B (PT.003). Nid oes dim tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg yn cael ei golli gyda'r dyraniadau tai.
- 8.43 Er mwyn gwneud lle i'r angen a dystiwyd am dir i ddarparu cyfleoedd ar gyfer swyddi newydd mewn lleoliadau cynaliadwy ac i gydnabod y ffaith fod y cynllun yn ymestyn dros ardal wledig yn bennaf, mae'n anochel y bydd gofyn cael safleoedd tir gwyrdd. Roedd yr Adolygiad o'r Tir Cyflogaeth (DC.004) yn ymwneud ag adolygiad cynhwysfawr o safleoedd cyflogaeth ac eiddo cyfredol gyda'r canlyniadau'n llywio'n allweddol bolisiâu strategol a manwl yn y Cynllun. Wrth baratoi'r Cynllun, mae nodi hierarchaeth aneddleoedd gynaliadwy'n sicrhau y caiff datblygiadau eu dosbarthu'n gynaliadwy. Adlewyrchodd a hyrwyddodd gwaith nodi'r hierarchaeth hon gynaliadwyedd trwy geisio gwella hygyrchedd at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol ac, o ganlyniad i hynny, ostwng yr angen i deithio cymaint â bo modd mewn ardal wledig. Mae'n ceisio cynyddu cynhwysiad cymdeithasol gan gyflawni aneddleoedd hyfyw a hunangynhaliol a chymunedau cynaliadwy. Wrth ddsbarthu'r tir cyflogaeth yn unol â'r hierarchaeth aneddleoedd, sicrheir fod dosbarthiad tir cyflogaeth yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a hygyrch a'i fod yn mynd law yn llaw â'r dosbarthiad tir ar gyfer tai. At hyn, wrth gyfeirio tir cyflogaeth at yr aneddleoedd mwyaf cynaliadwy, ceir y cyfle i gydlynu gwaith datblygu seilwaith er mwyn cwrdd ag anghenion nifer o ddatblygiadau yn yr un cyffiniau. Mae'r Cynghorau'n cydnabod y golyga hyn y gallai hyn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg. Fodd bynnag, rhaid cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i ddarparu ystod a dewis o swyddi newydd i gwrdd ag angen a dystiwyd. Mae'r Cynghorau'n cydnabod nad oes digon o dir llwyd neu dir amaethyddol graddfa lai mewn rhai Canolfannau allweddol neu gerllaw iddynt. Mae'r Cynghorau hefyd yn cydnabod fod tir amaethyddol graddfa is yn cyfateb i ardaloedd o werth tirwedd uchel neu'n ardaloedd nad ydynt yn cysylltu'n dda â Chanolfannau sydd eisoes yno. Wrth gyflawni'r strategaeth mae'r Cynllun, felly, yn neilltuo cyfran fechan o dir amaethyddol gorau neu fwyaf hyblyg yng nghyffiniau Llangefni (Canolfan Drefol) fel tir cyflogaeth. Mae hyn yn cyfrif am 3.6% yn unig o'r tir cyflogaeth a neilltuir ac a ddiogelir yn ardal y Cynllun.
- 8.44 Datblygwyd y fethodoleg i asesu dewis safleoedd ar gyfer ffermydd solar er mwyn nodi ardaloedd cyfle. Yn unol â Phecyn Cymorth diwygiedig Llywodraeth Cymru ar Ynni Adnewyddiadwy i Gynllunwyr, cynhwysodd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i nodi ardaloedd cyfle ystyriaeth o dir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg. Cyflwynir y fethodoleg a'r canlyniadau yn "Asesiad o'r posibilrwydd ar gyfer ffermydd ffotofoltäig solar yng Ngwynedd ac Ynys Môn" (DA.020b). Ni fyddai dim tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg yn cael ei golli gyda'r ardaloedd cyfle gorau neu'r ardaloedd cyfle amgen.
- 8.45 O'r herwydd, ystyria'r Cynghorau fod y Cynllun, at ei gilydd, yn ceisio osgoi defnyddio tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg cymaint â bo modd.

9 A yw strategaeth y Cynllun yn diogelu'n ddigonol fuddiannau'r iaith Gymraeg?

- 9.1 **Ymateb** - Ydyw. Mae Adran 61 Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol (DCPhG) (fel y'i diwygiwyd gan Adran 11 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gadw tystiolaeth gyfredol o'r graddau y defnyddir y Gymraeg yn yr ardal. Mae Adran 62 DCPhG, fel y'i diwygiwyd gan Adran 11 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, yn ei gwneud yn ofynnol fod Arfarniad Cynaliadwyedd cynlluniau datblygu lleol yn cynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardal. Gwna Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 31 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015) hi'n glir y gellid rhoi sylw i ystyriaethau sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio os ydyw'n berthnasol i'r cais. Ni roddir y ddarpariaeth hon unrhyw bwys ychwanegol i'r Gymraeg uwchlaw unrhyw ystyriaeth arall o bwys. Amcangyfrifir bod rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn symud allan o Gymru bob blwyddyn. Un o nodau Llywodraeth Cymru yw gwyrddio'r duedd hon; mae creu swyddi i gynnal cymunedau a'r economi lleol yn flaenoriaeth allweddol.
- 9.2 Nid oes ffordd benodol o asesu a yw'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol cymuned. Yn ôl Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru am Gymru Ddwieithog, Iaith Pawb, mae Cymraeg yn debygol o gael ei siarad mewn gweithgareddau cymdeithasol, hamdden a busnes ac nid yn y cartref neu yn yr Ysgol yn unig os yw Cymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth leol. Gyda 65.4% o'r boblogaeth breswyl yng Ngwynedd a 57.2% o boblogaeth breswyl Môn yn cofnodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg yn 2011, ystyrir bod yr iaith yn parhau i fod yn rhan annatod o wead cymdeithasol ardal y Cynllun. Yn naturiol ddigon, ceir hunaniaeth Gymreig gymharol gryf gyda phoblogaeth sy'n ystyried, gan fwyaf, eu bod yn Gymry - 63% o'r boblogaeth breswyl yng Ngwynedd a 59.4% yn cofnodi eu bod yn Gymry'n unig neu'n Gymry ac yn Brydeinwyr yn unig (tabl KS202EW – Hunaniaeth genedlaethol).
- 9.3 Bu gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun rhwng y ddau Gyfrifiad. Mae'n debygol y daw y gostyngiad yn sgil nifer o ffactorau, yn eu plith: newidiadau demograffig yn y boblogaeth (gan gynnwys llai o blant, mwy o oedolion hŷn a cholli grwpiau hŷn â lefelau uwch o siaradwyr Cymraeg) pobl yn gadael ardal y Cynllun ac yn symud i mewn iddi, a newidiadau mewn sgiliau pobl a'u hagwedd at yr iaith.
- 9.4 Cofnoda Papurau Testun 10, 10A a 10B (PT.0019, PT.0020, PT.0021) wybodaeth am y Gymraeg, gan dynnu gwybodaeth yn bennaf o Gyfrifiad 2011 a 2001. Cofnoda Papur Testun 3A Poblogaeth a Thai (PT.007) wybodaeth am newidiadau demograffig fel y mae Adroddiad Sgopio'r Arfarniad Cynaliadwyedd (CDLL.007) ac Adroddiad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (2013) (CDLL.011). Rhydd adroddiad yr Arolwg o Dai a'r Gymraeg Gwynedd a Môn (DC.014) gipolwg ar y sefyllfa mewn perthynas â'r Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni mewn wardiau penodol yn ardal y Cynllun ac ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Dengys y diagram isod drosolwg ar ffactorau sydd wedi dylanwadu ar lefel y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni.



- 9.5 Yn ôl polisi Cynllunio Cymru (Pennod 4) dylai cynlluniau datblygu gynnwys datganiad ar sut y maent wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun. Cyflwyno paragraffau 6.23 i 6.25, fel y'u diwygiwyd gan Newid â Ffocws NF 10, yn glir sut y dylid rhoi sylw i'r Gymraeg yn y Cynllun.
- 9.6 Mae llesiant y Gymraeg yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau allweddol megis addysg, newid demograffig a gweithgareddau cymunedol yn ogystal ag ar ffyniant economaidd. Gall y system gynllunio ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg a'i llesiant trwy atal gwaith datblygu a allai gael effaith niweidiol sylweddol a hwyluso gwaith datblygu a allai gael effaith fuddiol.
- 9.7 Gall datblygiadau newydd gael effaith fuddiol a niweidiol ar y Gymraeg. Gall effeithiau buddiol ddigwydd pan fo datblygiad yn annog siaradwyr Cymraeg i aros yn eu cymunedau, er enghraifft tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol neu pan fo'n cefnogi hyfywdra cyfleusterau pentrefi, megis yr Ysgol. Gall darparu cyfleoedd cyflogaeth gynorthwyo i gadw siaradwyr Cymraeg yn yr ardal a'u hatal rhag symud o'r ardal. Gall ymrwymiad gan gyflogwyr newydd i ddarparu amgylchedd dwyieithog gynorthwyo i ychwanegu at niferoedd y siaradwyr Cymraeg ac ategu cynlluniau a strategaethau eraill. Gall effeithiau niweidiol ddigwydd pan fo nifer anghymesur o siaradwyr digymraeg, nad ydynt yn dysgu'r iaith, yn symud i mewn i gymuned, pan fo gwasanaethau neu gyfleusterau hanfodol y mae eu hangen i gynnal cymunedau a'r Gymraeg yn cael eu colli neu lle mai prin yw'r cyfleoedd cyflogaeth. Yn aml gall y rhain gael effaith gronol, er enghraifft, trwy ostwng y defnydd o'r Gymraeg ymhlith siaradwyr Cymraeg.

- 9.8 Yn ôl y gofyn, mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) wedi arfarnu'r Cynllun yn ystod sawl cam trwy gydol gwaith paratoi'r Cynllun (CDLL.007). Defnyddiwyd y broses AC i bennu'r amcanion cynaliadwyedd allweddol ar gyfer y Cynllun ac asesu'r Cynllun yn erbyn yr amcanion hyn er mwyn nodi effeithiau tebygol y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys darogan a gwerthuso effeithiau opsiynau, amcanion, polisiau a dyraniadau safle'r Cynllun ar yr amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Rhydd yr AC fframwaith y gellir ei ddefnyddio i asesu effeithiau'r Cynllun. Mae'r fframwaith yn cynnwys yr amcanion a ganlyn: gwarchod, hyrwyddo a hybu'r Gymraeg. At hyn, cynhaliodd y Cynghorau Asesiad o'r Cynllun o ran yr Effaith ar y Gymraeg yn ystod sawl cam i gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y Cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal (CDLL.011 - 13) a bu o gymorth i lywio'r AC a datblygu polisiau a strategaeth y Cynllun. Mae gwrthwynebwyr wedi gwneud sylwadau ar y wybodaeth sydd yn yr adroddiad am yr adroddiad ar yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau, ond ni wnaethant sylw ar adroddiad yr AC. Er hynny, rhoes y Cynghorau ystyriaeth ofalus i'r sylwadau ac yna wneud mân ddiwygiadau golygyddol i gywiro gwybodaeth yn ogystal â mân ddiwygiadau eraill i roi sylw i'r sylwadau perthnasol. Gwnaed nifer o ddiwygiadau hefyd i'r Cynllun Adnau trwy Newidiadau â Ffocws NF 10, 14, 15, 16, 19, 21, 50, 58, 62 . Ni ddaeth yr un sylw i law ynghylch y Newidiadau â Ffocws gan y gwrthwynebwyr oedd wedi gwneud sylw ar Adroddiad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Cyflwynwyd adroddiad diwygiedig ar Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac fe'i cynhwysir yn y llyfrgell Archwilio (CDLL.013).
- 9.9 Yn llifo o Weledigaeth y Cynllun, nod amcan strategol 1 y Cynllun yw diogelu a chryfhau'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg a hyrwyddo'u defnydd fel rhan hanfodol o fywyd cymunedol. Dangosodd asesiad cydnawsedd yr AC nad oedd dim yn anghydnaws rhwng SO1 ac amcanion yr AC.
- 9.10 Mae'r Cynllun yn dylanwadu ar y Gymraeg yn bennaf trwy leoliad, graddfa a math y datblygiad fel y'i dosberthir gan Strategaeth y Cynllun a'r hierarchaeth aneddeledd. Fel y gwelir mewn ymateb i gwestiwn 3c uchod, wrth ddatblygu'r Cynllun, paratowyd ac ystyriwyd opsiynau gofodol a thwf strategol gwahanol a chawsant eu hasesu a'u mesur yn erbyn y fframwaith cynaliadwyedd. Daeth yr AC i'r casgliad mai'r hoff opsiynau, fel y bwriwyd ymlaen â nhw i'r Cynllun Adnau, fyddai'n rhoi'r strategaeth fwyaf cynaliadwy ar gyfer ardal y Cynllun. Daeth Asesiad (CDLL.011) o'r Effaith ar y Gymraeg yr Hoff Strategaeth i'r casgliad y byddai'r strategaeth yn annhebygol o arwain at effaith andwyol sylweddol ar strwythur economaidd-gymdeithasol yr ardal a allai gael effaith ar hyfywedd y Gymraeg. Noda'r ddau asesiad mai nod y Strategaeth yw sicrhau fod cyfleoedd datblygu'n briodol, gan gyfeirio'r rhan fwyaf o'r datblygu i Ganolfannau ardal y Cynllun, tra hefyd yn cynnal cymunedau gwledig. Mae hyn yn caniatáu ystod o gyfleoedd ar gyfer twf ar draws ardal y Cynllun, cryfhau cymunedau lleol, felly'n annog pobl leol, cyfran uwch ohonynt sy'n siaradwyr Cymraeg, i aros yn eu cymunedau.
- 9.11 Mae nifer o feysydd polisi yn y Cynllun a allai fod â'r potensial o gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar Amcan yr AC i warchod, hyrwyddo a hybu'r Gymraeg. Mae Atodiad 3 yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (CDLL.013) a Phennod 3 a Phennod 6 adroddiad yr AC (CDLL.007) a'i Atodiad (DA.021) yn cofnodi'r asesiad. Mae'r Polisiau a ganlyn yn gysylltiedig â diogelu'r Gymraeg ac yn hyrwyddo amgylchiadau sy'n hyrwyddo buddiannau'r Gymraeg ac, mewn cysylltiad â chynlluniau eraill, gallant annog ei datblygiad parhaus:

Rhif y Polisi	Teitl Y Polisi	Sylw
PS1	Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig	<ul style="list-style-type: none"> Darparu fframwaith sy'n amlinellu pryd dylid ymgymryd ag asesiad ffurfiol o effaith datblygiad arfaethedig ar yr iaith Gymraeg, yn ogystal ag amlinellu'r disgwyliadau o ran arwyddion ac enwau llefydd.
PS2	Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr	<ul style="list-style-type: none"> Darparu fframwaith er mwyn negodi'r ddarpariaeth o isadeiledd angenrheidiol i ymdopi a datblygiadau arfaethedig yn y cam cais cynllunio, a all gynnwys cyfraniadau at gyfleusterau/ gwasanaethau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
ISA1	Darpariaeth Isadeiledd	
ISA2	Cyfleusterau Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> Diogelu cyfleusterau hanfodol sydd eisoes yn bodoli a hyrwyddo rhai newydd, a thrwy hynny, cyfrannu at gynnal neu fwyhau rhwydwaith o lefydd ble bo'r iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo.
PS5	Datblygu Cynaliadwy	<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo datblygiad sy'n cyfrannu at greu neu gynnal cymunedau cytbwys, a all fod o fudd i les yr iaith Gymraeg.
PCYFF1	Meini Prawf Datblygu	
PS8	Cynigion am Brosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol a Datblygiadau Cysylltiedig	<ul style="list-style-type: none"> Hwyluso datblygiad sy'n sicrhau allbynnau economaidd positif i gymunedau lleol. Hwyluso datblygiad a all drawsffurfio ardal y Cynllun i fod yn ardal fentrus a hyfyw yn economaidd ac yn gymdeithasol, drwy adael i bobl fyw a gweithio'n lleol, gwella ansawdd bywyd, lleihau mudo aelwydydd ayb. Cefnogi ffyniant economaidd a chynnaladwyedd cymunedau gwledig.
PS9	Datblygiad sy'n Gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd	
PS10	Darparu Cyfle ar Gyfer Economi Ffyniannus	
CYF1	Gwarchod a Dynodi Tir ac Unedau ar Gyfer Defnydd Cyflogaeth	
CYF3	Mentrau Diwydiannol neu Fusnes Newydd ar Gyfer un Defnyddiwr mawr Oddi ar Safleoedd Wedi eu Gwarchod neu eu Dynodi ar Gyfer	

	Cyflogaeth	
CYF4	Defnyddiau Amgen ar Safleoedd Cyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a hyrwyddo sector dwristiaeth ffyniannus, sy'n darparu cyfleoedd gyflogaeth i aelwydydd lleol. • Cyfrannu at gynnal stoc dai parhaol a chefnogi cymeriad diwylliannol cymunedau lleol.
CYF5	Ailddefnyddio ac Addasu Adeiladu Gwledig neu uned Breswyl ar Gyfer Defnydd Busnes neu Adeiladu Unedau Newydd ar Gyfer Busnes/ Diwydiant	
CYF6	Safleoedd Adfywio	
CYF7	Ardal Adfywio Caergybi (AAC)	
PS11	Yr Economi Ymwelwyr	
TWR1	Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr	
TWR2	Llety Gwyliau	
TWR3	Safleoedd Carafanau Sefydlog a Siale a Llety Gwersylla Amgen Parhaol	
TWR4	Deiliadaeth Gwyliau	
TWR5	Safleoedd Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen Dros Dro	
PS12	Canol Trefi a Manwerthu	
MAN4	Diogelu Siopau a Thafarndai Mewn Pentrefi	
MAN5	Datblygiadau Manwerthu Newydd Mewn Pentrefi	
MAN6	Manwerthu yng Nghefn Gwlad	
PS13	Darpariaeth Tai	<ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo, datblygiad sy'n creu marchnad dai iach a chytbwys sy'n cefnogi creu cymunedau cynaliadwy - a thrwy hynny yn cyfrannu at gynnal neu gryfhau
PS14	Tai Fforddiadwy	
TAI 1	Cymysgedd Briodol o Dai	

Polisi TAI X	Datblygu gam wrth gam	<p>lles yr iaith Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo cymunedau cynaliadwy cymysg drwy sicrhau fod bob datblygiad preswyl yn cyfrannu at wella'r amrywiaeth o dai ar gael o ran math a daliadaeth, cwrdd â'r angen sydd wedi eu hadnabod ar gyfer y gymuned gyfan. • Hyrwyddo tai lleol/fforddiadwy ar gyfer pobl lleol. • Hyrwyddo lefel addas o dai fforddiadwy ar draws ardal y Cynllun. • Hyrwyddo datblygiad o raddfa addas, yn unol â rôl yr anheddiad yn ardal y Cynllun.
TAI 2	Isrannu Eiddo Presennol i Fflatiau Hunangynhaliol a Thai Amlfeddiannaeth	
TAI 3	Llety ar gyfer gweithwyr adeiladu dros dro	
TAI 4	Cartrefi Gofal Preswyl, Tai Gofal Ychwanegol Neu lety Gofal Arbenigol ar Gyfer yr Henoed	
TAI 5	Tai Marchnad Leol	
TAI 9	Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad	
TAI 10	Safleoedd Eithrio	
TAI 14	Tai yn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth trefol	
TAI 15	Tai Mewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol	
TAI 16	Tai Mewn Pentrefi Gwasanaeth	
TAI 17	Tai Mewn Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol	
TAI 18	Tai Mewn Clystyrau	
TAI 19	Trosi Adeiladau yng Nghefn Gwlad Agored i Ddefnydd Preswyl	

9.12 Mewn ymateb i sylwadau a wnaed am Newidiadau â Ffocws, ystyriodd y Cyngorau bod rhinwedd mewn awgrymu diwygiadau i baragraff 7.1.3 a Pholisi PS 1 a'i eglurhad. Os cred yr Arolygwr ei fod yn dderbyniol ac yn briodol, byddai'r Cyngorau, felly, yn dymuno cynnig y diwygiadau (mewn coch) a gyflwynir yn Atodiad 3 i 7.1.3 a Pholisi PS 1 a'i eglurhad, i'w hystyried fel Newidiadau i'r Materion yn Codi.

9.13 Cafodd y safleoedd a neilltuwyd eu harfarnu'n systemataidd yn yr AC (Pennod 7) yn erbyn fframwaith yr AC. Rhoes yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Pennod 5) (CDLI.013) ystyriaeth i effaith y lefel arfaethedig o dwf mewn tai ar Ganolfannau a Phentrefi Gwasanaethu, yng nghyd-destun y polisiau perthnasol a ddisgrifir uchod. Yn gyffredinol, mae modd casglu fod yn y Cynllun Adnau ddigon o fesurau i liniaru effeithiau a gweithredoedd andwyol i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol er mwyn sicrhau nad yw effeithiau negyddol posib yn sylweddol.

- 9.14 Ystyria'r Cynghorau fod y Cynllun wedi'i baratoi gan gadw mewn cof bob deddfwriaeth berthnasol a chyfarwyddyd a pholisi cynllunio cenedlaethol yng nghyswllt y Gymraeg. Maent yn ystyried fod strategaeth y Cynllun, felly, yn cyfrannu at ddiogelu'n ddigonol fuddiannau'r Gymraeg a'i bod ar dir cadarn. Mae'r Cynghorau'n achub ar y cyfle hwn i dynnu sylw at yr ymrwymiad i baratoi Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun. Mae "Cwmpas Canllawiau Cynllunio Atodol ac amserlen drafft i'w paratoi, Mehefin 2016" (DA.010b) yn ymhelaethu ar Atodiad 9 yn y Cynllun i roi trosolwg eang ar bob Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol, yn cynnwys y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol, "Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy".

10 A yw Strategaeth y Cynllun yn gyflawnadwy?

10a. A ystyriwyd yr holl ofynion seilwaith er mwyn sicrhau datblygiad amserol y safleoedd a neilltuwyd, gan gynnwys yn nhermau capasiti carthffosiaeth?

- 10.1 **Ymateb** – Ydyw a Do. Wrth baratoi'r Cynllun Adnau nodwyd capasiti seilwaith sydd eisoes yno a gofynion seilwaith ar gyfer y dyfodol sy'n gysylltiedig â gwaith a gynlluniwyd i ddatblygu tai a chyflogaeth ar safleoedd a neilltuwyd. Mae gwybodaeth ar gael mewn cyfres o ddogfennau: Papurau Testun 13: Seilwaith Cymunedol - gwybodaeth sylfaenol (PT.024); Papur Testun 1B Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol - diweddariad (2016) (PT.003); Papur Testun 14 Asesiad o Fannau Agored (PT.025); Papur Testun 19 Proffiliau Aneddleoedd (PT.032). Yn fwy diweddar, mae'r Cynghorau wedi cyhoeddi Papur Testun ar Ddichonoldeb Datblygu Safleoedd (DA.015) sy'n tynnu sylw at y gofynion seilwaith sy'n wybyddus fesul safle. Lle bo'n bosib, mae hefyd yn nodi'r sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu'r seilwaith a'r modd (ariannol neu fel arall) y darperir y seilwaith.
- 10.2 Dŵr Cymru yw'r cynhaliwr statudol sy'n darparu dŵr cyhoeddus a gwasanaethau carthffosiaeth trwy ardal y Cynllun. Wrth baratoi'r Cynllun, mae'r Cynghorau wedi gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru, yn ymgynghori â nhw ynghylch dosbarthiad twf ym mhob cam o broses paratoi'r cynllun. Mae Dŵr Cymru wedi rhoi sylwadau perthnasol ar ddŵr, carthffosiaeth a thrin dŵr gwastraff yng nghyswllt dyraniadau datblygu ym mhob cam o broses paratoi'r cynllun. Barn gyffredinol Dŵr Cymru yw bod modd darparu cyflenwad dŵr a charthffosiaeth, fodd bynnag, efallai y byddai'n rhaid wrth ddarparu gwasanaethau ychwanegol oddi ar y safle a/neu asesiadau modelu hydrolog ar gyfer rhai safleoedd datblygu mwy. Er mwyn gwella eglurder, mae datganiad Tir Cyffredin dyddiedig 18-05-16 wedi'i baratoi rhwng y Cynghorau a Dŵr Cymru sy'n rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch ariannu a chyflawni seilwaith o'r fath. Mae modd gweld copi o'r datganiad ym Mhapur Testun Dichonoldeb Datblygu Safleoedd (DA.015).
- 10.3 Awgryma'r dystiolaeth gefndirol y bydd angen seilwaith newydd neu well er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol o ran cynllunio. Er gwaethaf hynny, ystyrir bod y lefelau twf mewn tai neu gyflogaeth a fwriedir ar gyfer aneddleoedd unigol yn golygu nad yw cyflawni'r Cynllun yn dibynnu ar brosiectau seilwaith mawr. Mae Papur Testun diwygiedig 20A Tafllwybr Tai (DA.023) yn cyd-fynd â'r wybodaeth sydd ym Mhapur Testun Dichonoldeb Datblygu Safleoedd
- 10.4 O'r herwydd, mae'r Cynghorau o'r farn fod yr holl ofynion seilwaith wedi'u nodi ac wedi dangos nad oes cyfyngiadau ar y safle nad oes modd eu goresgyn.

10b. A ydy'r safleoedd a neilltuwyd wedi'u seilio ar asesiad safle cadarn sydd yn ystyried cyfyngiadau posib?

- 10.5 **Ymateb** - Ydynt. Mae'r dyraniadau yn y Cynllun wedi bod yn destun asesiad cadarn a chynhwysfawr o'r safle fel y cyflwynir yn amrywiol fersiynau o Bapur Pwnc 1 (PT.001 - PT.003), sy'n rhoi manylion methodoleg yr Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol a'r canlyniadau. Golygodd datblygu'r fethodoleg ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod Awst 2011. Fe'i datblygwyd fel bod modd asesu safleoedd ymgeisiol yn erbyn ystod o feini prawf cynllunio, amgylcheddol a ffisegol a gynhaliwyd mewn camau.
- 10.6 Mae'r sylfaen dystiolaeth wedi cynnwys ymgynghori'n eang gydag Adrannau mewnol y Cynghorau a chyrrff statudol er mwyn nodi unrhyw gyfyngiadau safle y manylir arnynt ym Mhapurau Testun 1A ac 1B (PT.002 and PT.003) ac ym Mhapur Testun Dichonoldeb Datblygu Safleoedd (DA.015). Yn seiliedig ar y dystiolaeth oedd ar gael, nid ystyrir bod datblygu safleoedd cyflogaeth a thai a neilltuwyd yn dibynnu ar brosiectau seilwaith strategol. Fel y cyfeirir ato yn yr ymateb i gwestiwn 10a nid yw'r angen am seilwaith yn golygu y byddir yn atal gwaith datblygu ar safleoedd rhag mynd rhagddo gan y gall datblygwyr un ai ariannu gwelliannau eu hunain trwy'r broses ymrwymadau cynllunio neu fynd i mewn i broses orchymyn i ddarparu'r seilwaith er mwyn dod â'r datblygiad ymlaen cyn unrhyw fuddsoddi rheoleiddiol.
- 10.7 O'r herwydd, ystyrir'r Cynghorau fod y broses o ddewis safleoedd, fel y'i crynhoir uchod, wedi'i seilio ar fethodoleg gadarn.

10c. A yw polisiau PS2 a ISA1 wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn?

- 10.8 **Ymateb** - Mae'r polisiau'n cynnwys rhestr ddangosol o gyfraniadau tebygol y gellid eu ceisio o fwriadau datblygu yn y dyfodol, yn seiliedig ar fath y seilwaith a nodir ym Mhapur Testun 13 Seilwaith Cymunedol - gwybodaeth sylfaenol (PT.024) a Phapurau Testun 1A ac 1B (PT.002 a PT.003). Nid oes gan Bolisi PS1 restr o flaenoriaethau. Byddir yn penderfynu ar ofynion terfynol y seilwaith yn ôl pob achos adeg y ceisiadau cynllunio, gan gadw mewn cof fath y datblygiad, yr amgylchiadau fydd yn benodol adeg y cais cynllunio a'r profion statudol. Bydd y wybodaeth yn y Papurau Testun uchod yn fan cychwyn defnyddiol i ymgeiswyr/datblygwyr ddatblygu eu bwriadau, gan gynnwys negodi gyda thirfeddianwyr.
- 10.9 Mae Papur Testun 13 yn rhannu'r seilwaith yn dri chategori: hanfodol, angenrheidiol a chymunedol. Gallai categorieiddio fel hyn fod o gymorth lle bo'r ymgeisydd / datblygwr wedi dangos nad oes modd i'r datblygiad gyflawni holl ymrwymadau cynllunio'r Cyngor.

11 A yw Strategaeth y Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid?

- 11.1 **Ymateb** - Ydyw. Roedd gwaith paratoi'r Cynllun yn golygu nodi materion a gyrwyr. Cyflwynar strategaeth a'r polisiau sut y bydd y Cynghorau'n ystyried ceisiadau cynllunio, gosod targedau ar gyfer twf a dosbarthiad eang datblygiad sy'n adlewyrchu anghenion a nodwyd. Eu bwriad hefyd yw rhoi digon o hyblygrwydd i ymateb i gyfleoedd a blaenoriaethau sy'n newid. Nod y Cynllun yw sicrhau fod polisiau'n hyblyg a phriodol i ymateb i ofynion priodol busnes newydd a busnes sy'n tyfu. Er mwyn gwneud hyn, rhaid wrth weithredu'n hyblyg er mwyn sicrhau bod digon o safleoedd ac eiddo o'r math cywir ar gael yn y manau cywir ar yr adeg gywir. Yn

olaf, rhydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ffordd allweddol o fonitro gwaith cyflawni'r Cynllun. Caiff hon ei defnyddio i asesu a oes angen adolygiad pe ceid newid sylweddol neu sylfaenol mewn amgylchiadau.

11a A yw'r Cynllun yn gallu ymateb yn effeithiol i newidiadau ym Mhrosiect Wylfa Newydd?

- 11.2 **Ymateb** - Ydyw. O gofio maint, cymhlethdod a dylanwad penderfyniadau masnachol y gellid eu cymryd mewn perthynas â phrosiect Wylfa Newydd, nid yw'n bosib darogan â sicrwydd llwyr beth fydd y galw am dir un ai o'r prosiect ei hun nac o'r cadwyni cyflenwi sylweddol y bydd yn rhaid iddo wrthynt. Yn wyneb yr holl ansicrwydd hyn, mae'r Cynllun yn ymateb trwy sicrhau bod digon o ddewis o ran tir cyflogaeth i ystod o ddefnyddwyr gydag ystod o ofynion. Mae'r sylfaen dystiolaeth hefyd yn cynnwys asesiad cadarn o'r unedau tai ychwanegol a fydd yn ofynnol, y mae'n debyg, yn sgil y rhagolygon economaidd gwell a ddisgwyllir ar gyfer ardal y Cynllun, yn enwedig felly, Môn. Yn seiliedig ar y dystiolaeth, mae'r Cynllun yn cynnwys ar gyfer cwantwm o dai sy'n adlewyrchu manteision economaidd parhaol a ddaw o Ynys Ynni a Pharthau Menter Môn ac ati, y mae Prosiect Wylfa Newydd yn rhan bwysig ohonynt. Mae "Horizon Nuclear Power" yn parhau i anelu i gyflwyno cais am ei Orchymyn Caniatâd Datblygu yn Chwefror 2017 ac, felly, gael penderfyniad yn 2018.
- 11.3 Byddai'n anghyson i'r Cynllun beidio â darparu fframwaith i'r Cynghorau fod mewn sefyllfa i ymateb yn gadarnhaol i'r amgylchiadau economaidd a chymdeithasol newidiol a ddisgwyllir ac sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd.
- 11.4 Ystyrir bod y Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau newidiol. Byddir yn adolygu yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol faint o dai a thir cyflogaeth y bydd yn rhaid wrthynt. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn sail i asesu effeithlonrwydd polisiâu a chynigion y Cynllun. Bydd dangosyddion allweddol yn cael eu monitro'n agos trwy gydol cyfnod y Cynllun er mwyn sicrhau fod y strategaeth yn cwrdd â'i thargedau bwriadedig ac y caiff ei chynigion eu cyflawni o fewn yr amserlen a ddisgwyllir.
- 11.5 Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd yn dadansoddi effeithlonrwydd a pherthnasedd parhaus polisiâu'r Cynllun yn wyneb newidiadau mewn amgylchiadau. Wrth fonitro, bydd modd nid yn unig gofnodi y tu ôl i unrhyw wyriad o gyfraddau a ddisgwyllir. Os yw'n ymddangos nad yw'r targedau'n cael eu cyrraedd neu fod newid sylweddol mewn amgylchiadau, bydd rhaid ymdrin â hyn trwy adolygiad rhannol neu lawn. Disgrifia'r ymateb i gwestiwn 12 isod barodrwydd y Cyngor i wneud newidiadau ychwanegol i'r Fframwaith Monitro i wella ei gadernid.


12 A yw'r Cynllun yn darparu mecanweithiau cadarn ar gyfer Monitro a Gweithredu Strategaeth y Cynllun?

- 12.1 **Ymateb** - Mae Pennod 8 y Cynllun yn cynnwys Fframwaith Monitro oedd yn destun Newidiadau â Ffocws (CDLL.023). Mewn ymateb i nodyn cychwynol yr Arolygwr i'r Cynghorau ym Mai 2016 (DA.002), mireiniwyd cyflwyniad y Fframwaith Monitro a'i gyflwyno i'r Archwiliad (DA.010c). Mae'r Cynghorau'n fodlon gwneud newidiadau angenrheidiol ychwanegol i'r Fframwaith er mwyn sicrhau bod monitro effeithlonrwydd y Cynllun wastad yn broses eangfrydig, gan ymgorffori ymrwymiad i

weithredu os nad yw datblygiad yn dod yn ei flaen yn ôl y disgwyl a nodi mesurau i'w cymryd er mwyn rhoi sylw i unrhyw newidiadau.

Atodiad 1 / Appendix 1

Stad Diwydiannol Griffin (Newidiadau Materion sy'n Codi) Griffin Industrial Estate (Matters Arising Change)



Eithrio'r safle o'r Gwarchodaeth Cyflogaeth /
Exclude site from the safeguarded employment site



1:1,500

Parc Busnes Porthmadog

Asesiad canlyniadau llifogydd

Casgliadau

Mae'r y safle wedi ei leoli o fewn parthau llifogydd C1 ar Map Cyngor Datblygu Llywodraeth Cymru – ardal sy'n destun perygl llifogydd, ond sy'n cael ei wasanaethu gan isadeiledd sylweddol, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd, gyda mwy o debygolrwydd blynyddol o lifogydd neu 0.1% (1 mewn 1000).

Cynhyrchwyd mapiau dyfnder llifogydd penodol safle a graddau o allbynnau o fodelu hydrolegol Afon Glaslyn a Hisafonydd (ym Mhorthmadog).

Dangosir y safle y tu allan i ardaloedd wedi modelu llifogydd afonol yn ystod pob digwyddiad hyd at a chan gynnwys y 1 yn 1000 blynyddol tebygolrwydd digwyddiad.

Dangosir y safle yn rhydd o lifogydd yn ystod y digwyddiad tebygolrwydd blynyddol amddiffynedig llanw 1 mewn 200 o hinsawdd newid hyd at 2112.

Dangosir maint bach y safle yn y gornel de-ddwyreiniol mewn perygl yn ystod torri y amddiffyniad Crwn Ward adeg cyd-daro gyda digwyddiad llanw tebygolrwydd blynyddol 1 mewn 200 gyda newid yn yr hinsawdd hyd at y flwyddyn 2112. Mae dyfnderoedd llifogydd yn ystod y cyfnod yma yn llai na 110mm.

Byddai unrhyw ddatblygiad debyg wrth debyg, cadw'r defnydd llai agored i niwed ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, yn cael ei ganiatáu. Dylid ymgorffori dulliau gwrthsefyll llifogydd i leihau'r perygl o lifogydd a darparu gwellhad i'r sefyllfa bresennol.

Ar gyfer datblygu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, byddai angen unrhyw unedau ychwanegol, sy'n golygu mwy o ddefnydd o safle, gydymffurfio â A1.14 adrannau a A1.15 TAN15.

Ar gyfer datblygu ar dir heb ei ddatblygu, byddai datblygu angen gael eu dosbarthu mewn parth llifogydd A ac fel y cyfryw mae'n ofynnol bod yn rhydd o lifogydd yn ystod pob digwyddiad hyd at a chan gynnwys digwyddiad tebygolrwydd blynyddol 0.1% pan cyfrifyddu ar gyfer newid yn yr hinsawdd ac amddiffyn torri.

Byddai angen unrhyw ddatblygu sy'n cynnwys dwysáu y defnydd presennol neu unrhyw ddatblygiad newydd ar dir heb ei ddatblygu gael ei gefnogi gan waith modelu hydrologig y llanw 0.1% o debygolrwydd blynyddol yn ogystal â digwyddiad newid hinsawdd. Byddai hyn yn galluogi asesiad o dan adran A1.15 TAN15.

Llwybr dianc yn ddiogel ar gael gan Ffordd Penamser, Gorllewin pennawd. Yn y safle mewn ardal a wasanaethir gan rhybuddion llifogydd.

7.1.3 Le mae bwriad i ddatblygu, rhaid ystyried gwella a diogelu'r iaith a diwylliant. Mae cynnal cymunedau presennol yn allweddol i hyn. Mae'r Cynllun, ynghyd â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn cynnig nifer o bolisiau, er nad ydynt yn cyfeirio'n benodol at yr iaith Gymraeg, a fydd yng nghyd â mentrau gan bartneriaid yn cael effaith bositif. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod canran uchel o'r boblogaeth bresennol yn byw mewn aneddeuoedd gwledig ac felly mae'n cefnogi cymunedau gwledig a threfol.

Mae'r angen i hyrwyddo economïau lleol iach yn debygol o fod yn bwysig iawn i gynnal cymunedau a chryfhau'r iaith. Mae'r ffordd yma yn darparu cyfleoedd i bobl aros o fewn ardal y Cynllun yn hytrach na mynd i chwilio am waith yn rhywle arall. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o bolisiau a fydd yn hyrwyddo'r amcan yma, gan annog cyfleoedd economaidd yn agos i le mae pobl yn byw a fydd yn cael effaith bositif ar fywiogrwydd y gymuned a'r iaith Gymraeg. Yn ychwanegol i hynny disgwylir i unrhyw ddatblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol ddangos dealltwriaeth o gyfansoddiad ieithyddol yr ardal maent yn gwneud cais cynllunio ar ei gyfer a chydabyddiaeth o statws y Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru. Dylid dangos ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Bydd polisiau yn cynorthwyo i sicrhau bod y lefel gywir a math iawn o alw am gartrefi yn cael ei gyfarch a bod pryd fydd datblygiad yn digwydd yn galluogi iddo ddigwydd heb amharu yn arwyddocaol ar gymeriad y gymuned. Yn ychwanegol bydd polisiau yn anelu i gadw cyfleusterau cymunedol presennol a hyrwyddo cyfleusterau amgen neu gyfleusterau newydd, os yn briodol. **Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn atgyfnerthu'r polisiau trwy roi arweiniad am y math o wybodaeth neu asesiad a fydd ei angen adeg cais cynllunio i oleuo asesiad o'r ardrawiad, unrhyw ddifrod dichonadwy, a'r angen posib am liniariad a/ neu fesurau hyrwyddo effeithiau cadarnhaol.**

POLISI STRATEGOL PS1: YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT Cymreig

Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:

- 1. Ofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig yn disgyn i mewn i un o'r categorïau canlynol:**
 - a. Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m sg. neu fwy; neu**
 - b. Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronol yn darparu mwy na'r targed tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 14 – 18; neu**
 - c. Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap **du mewn i ffiniau datblygu** nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o **angen a galw am dai a gofnodir mewn Asesiad Marchnad Tai a ffynhonnellau tystiolaeth leol perthnasol eraill cynnig darparu ysted ddigonol o unedau tai o ran eu maint a mathau;****
- 2. Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar**

hap du allan i ffiniau datblygu ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu; ac

a. Yn mynd i ddenu neu roi llety i lawer mwy o bobl na ragwelwyd yn wreiddiol ym mholisiau a chynigion y Cynllun;

3. Ddefnyddio mecanwaith priodol i sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiau negyddol addas yn cael eu darparu neu y gwneir cyfraniad i liniaru'r effeithiau hynny iddynt;
4. Wrthod cynigion fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned;
5. Gofyn i ~~Annog~~ ~~bed~~ holl arwyddion gweithredol gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes yn ddwyieithog;
6. ~~Annog defnydd o~~ Gosod disgwyliad y bydd enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.

Eglurhad:

7.1.4 Bwriedir y bydd yr holl fesurau a ddisgrifir yn fras yn y paragraffau o flaen y Polisi yma yn cefnogi cymunedau a'r iaith Gymraeg. Mae amcanion allweddol y Cynllun yn dangos ymrwymiad i hyrwyddo cymunedau cytbwys, cynaliadwy a nodedig. Mae hyn yn golygu bod y Cynllun yn cynnwys teclynnau polisi i ganiatáu cymunedau lleol newid a thyfu'n gynaliadwy ac i gyfarch anghenion pob aelod o gymunedau. Ceir nifer o bolisiau strategol a manwl a fydd yn rhoi eglurhad am sut fydd cynigion i ddatblygu yn cael eu rheoli. Ar y cyfan mae'r Asesiad Cynaliadwyedd (a gafodd ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol) yn edrych yn bositif ar bolisiau a chynigion y Cynllun ar sail bod datblygiad yn digwydd ar y raddfa briodol ac yn y lleoedd priodol, gan gynnwys mesurau hyrwyddo effeithiau cadarnhaol a mesurau lliniaru effeithiau croes.

7.1.4A Er hynny, Fel y gwelir ym maen prawf 1 a 2 ym Mholisi PS1, er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus adeg cais cynllunio gofynnir am wybodaeth am geisiadau lle gall datblygiad ddigwydd, pe fyddai'n cael caniatâd cynllunio, ar gyflymder neu raddfa sy'n wahanol i'r hyn a ragwelwyd adeg paratoi'r Cynllun fel y gwelir ym maen prawf 1 a 2. Mae Polisi PS1 yn atgyfnerthu polisiau perthnasol eraill yn y Cynllun sydd yn disgrifio'r rhagdybiaethau a wnaed, e.e. lefel twf tai fesul anheddle (TAI 14 - TAI 18); bod datblygiad tai yn rhoi dewis priodol o dai marchnad a thair fforddiadwy (TAI 1). Os oes ansicrwydd, dylid gofyn am gyngor cynllunio cyn cyflwyno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i weld os fydd angen Datganiad neu Asesiad. Mae cael arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg ac enwau llefydd ac eiddo Cymraeg yn arwydd clir o gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol. Bydd yr iaith Gymraeg hefyd yn cael ei hyrwyddo drwy wahanol bolisiau yn y Cynllun. Dylai'r holl ystod o gyfleoedd a ddarperir gan bolisiau strategol a manwl, gan gynnwys darparu amrywiaeth o fathau o dai, twf economaidd lleol a diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gyfrannu at wella bywiogrwydd yr iaith Gymraeg. Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy a Chanllawiau Cynllunio Atodol Math a chymysgedd o dai i roi arweiniad pellach am y mater. Byddant yn egluro'r math a lleoliad datblygiad sy'n debygol o fod yn dderbyniol yn ardal y Cynllun, gan egluro'r ystyriaethau cynllunio sy'n berthnasol. Bydd y CCA Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy yn disgrifio'r arwyddion a ddisgwyllir iddynt fod yn ddwyieithog, e.e. arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, hysbysebion, hysbyseb arddangos. Bydd y Datganiad neu'r adroddiad am yr Asesiad yn rhoi cyfle i'r datblygwr egluro ei gais yn fwy manwl ac ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol posib ar y gymuned a'i chydbwysedd ieithyddol. Bydd y CCA, er enghraifft, yn chwilio am dystiolaeth i ddangos bod trafodaeth wedi bod gyda Chynghorau Cymuned, Dinas a Thref a

grwpiau cymunedol lleol er mwyn cael gwybodaeth a gofyn am eu barn a bod ystyriaeth wedi rhoi i arolygon am y farchnad tai lleol, a/ neu'r farchnad lafur. Yn ogystal â hynny, byddant yn cyfeirio ymgeisydd at e.e. gymorth sydd ar gael gan Swyddfa Comisiynydd yr Iaith am ddylunio arwyddion a deunydd marchnata dwyieithog, y cyngor sydd ar gael i'r sector breifat gan Lywodraeth Cymru/Busnes Cymru ynglyn a dwyieithrwydd.